Pecyn cymorth
GALLU GWNEUD

Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu i landlordiaid cymdeithasol

i2i - inform to involve

i2i - hysbysu i ymrwymo

ADNODD 2: canllaw cynhwysfawr

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu hwn i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru gan Anthony Collins Solicitors LLP (ACS) a Richard Macfarlane ACS. Anthony Collins Solicitors LLP (ACS) a Richard Macfarlane yw'r ymarferwyr mwyaf profiadol yn y DU mewn cynnwys gofynion buddion cymunedol mewn contractau a chytundebau sector cyhoeddus; mae eu gwaith yn cynnwys Prosiect Peilot Buddion Cymunedol mewn Caffaeliad Cyfarwyddiaeth Gaffaeliad yr Alban.

Mae ***Anthony Collins Solicitors*** lawyers yn gyfreithwyr ac ymgynghorwyr sy'n canolbwyntio ar 7 thema waith, Trawsnewid Cymunedau; Plant a Phobl Ifanc, Oedolion sy'n Agored i Niwed; Menter; Tai i Bawb; Adloniant a Hamdden; a Chymunedau Ffydd. Mae ein thema ffocws Trawsnewid Cymunedau yn canolbwyntio ar waith gydag ac ar gyfer sefydliadau casglu data cenedlaethol, cymdeithasau cymunedol, awdurdodau lleol, ysgolion a mentrau cymdeithasol, ac ar bryderon amrywiol gan gynnwys materion amgylcheddol a darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus.
Yn fwy na thebyg, Mark Cook yw un o'r arbenigwyr cyfreithiol mwyaf blaenllaw ar fuddion cymunedol a chynaliadwyedd mewn caffaeliad, ers ysgrifennu ar y cyd â Richard Macfarlane Adroddiad JRF Achieving Community Benefits through contracts: law, policy and practice yn 2002. Mae wedi gweithio gyda mwy na 60 o awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn Lloegr a'r Alban yn y maes pwysig hwn.

Gellir cysylltu â Mark Cook neu Gayle Monk yn:
Ffôn: 0121 212 7472
E-bost: mark.cook@anthonycollins.com or gayle.monk@anthonycollins.com

Mae ***Richard Macfarlane*** yn ymchwilydd ac ymgynghorydd annibynnol gyda 27 mlynedd o brofiad o ddatblygu economaidd ac adfywio trefol lleol, sydd wedi arbenigo mewn helpu cyrff cyhoeddus i ddefnyddio eu dylanwad cytundebol i sicrhau buddion cymunedol. Mae ganddo swyddfeydd yn Llundain ac yn Dumfries a Galloway.

Richard yw'r ymgynghorydd annibynnol mwyaf profiadol sy'n gweithio ar 'lafur lleol mewn adeiladu'. Mae wedi gwneud amrywiaeth eang o waith sy'n ceisio sicrhau cynifer â phosibl o fuddion adfywio a datblygu i'r farchnad lafur leol. Richard a luniodd ac a reolodd yr ymchwil a ariannwyd gan JRF gyda Mark Cook a arweiniodd at gyhoeddi Achieving Community Benefits through contracts: law, policy and practice, ac ers ei gyhoeddi bu'n rheoli prosiectau amrywiaeth o raglenni datblygu a gweithredu polisi

Gellir cysylltu â Richard yn:
Ffôn: 07768 893 731
E-bost: RmacfarlaneSalt@aol.com

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad

1.1 Pecyn Cymorth Gallu Gwneud 5
1.2 Sut i Ddefnyddio Adnodd 2 6
1.3 Deall Buddion Cymunedol 7
1.4 Y Cwestiwn Allweddol 8

Adran 2: Sail gyfreithiol i Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu

2.1 Ffiniau Cyfreithiol i Gyrff Cyhoeddus y DU 9
2.2 Awdurdodau Lleol 10
2.3 LCCiaid a chyrff cyhoeddus anadrannol 11
2.4 Llywodraeth Cynulliad Cymru 12
2.5 Adrannau Llywodraeth 12
2.6 Fframwaith Polisi a Chyfreithiol yr UE 13
2.7 Y Gyfarwyddeb Gyfunol 14

Adran 3: Sail Bolisi i Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu

3.1 Cyfarwyddyd y DU – "Materion Cymdeithasol mewn Prynu" 17
3.2 Polisi Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru 18
3.3 Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Cymru 19
3.4 Strategaeth Gymunedol 20
3.5 Gwerth am Arian 20
3.6 Fforddiadwyedd 21

Adran 4: Y Broses Gaffael

4.1 Cyflwyniad 22
4.2 Strategaeth Gaffael 24
4.3 Proses Gaffael 25
4.4 Gosod a monitro targedau 28
4.5 Hyrwyddwr RHT: y gydran allweddol 35
4.6 Crynodeb 37

Adran 5: Gweithredoedd yr Ochr Gyflenwi

5.1 Pwysigrwydd 38
5.2 Gwasanaethau Ochr Gyflenwi 39
5.3 Hwyluso 41
5.4 Monitro, Gwirio ac Adrodd 42
5.5 Crynodeb 42

Adran 6: Cytundebau Datblygu

6.1 Cyflwyniad 43

6.2 Problem "Cyfamodau Cadarnhaol" 43

6.3 Ymagwedd a Argymhellir 44

Adran 7: Cyflwyniad i'r Deunydd Enghreifftiol (Adnodd 3)

PWYSIG: Mae bob un o'r tri adnodd sy'n cael eu cynnwys ym Mhecyn Cymorth Gallu Gwneud yn rhoi cyngor cyffredinol yn unig. Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn eu defnyddio.

Am gyngor ar gynnwys camau cynhwysiant cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus cysylltwch â 'Siop Un Stop' Polisi Gwerth Cymru yn vwpolicy@wales.gsi.gov.uk

Adran 1: Cyflwyniad

Bydd yr adran hon yn amlinellu:

- beth yw **pecyn cymorth Gallu Gwneud** Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu (RHT) sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn Adnodd Rhif 2 – **y canllaw cynhwysfawr**
- beth yw **buddion cymunedol**
- y c**westiynau allweddol** i'w hystyried cyn ichi ddechrau defnyddio'r pecyn cymorth

1.1 Pecyn Cymorth Gallu Gwneud

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth hwn i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru sydd eisiau cyflawni cynhwysiant cymdeithasol ehangach drwy eu rhaglenni gwella a buddsoddi. Y prif bethau sy'n ysgogi'r gwaith hwn yw:

- penderfynoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael y gwerth ychwanegol mwyaf posibl o fuddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru
- y gwaith arloesol a wnaethpwyd gan Werth Cymru i ddatblygu'r canllaw Buddion Cymunedol cam wrth gam (1)
- yr ymrwymiad cynyddol gan landlordiaid cymdeithasol i amcanion SATC a mwy (2) a ddatblygwyd gan i2i – ymrwymo i hysbysu – i sicrhau bod buddsoddiad mewn tai hefyd yn cyflawni adfywio lleol a pherchenogaeth gymunedol ar dai
- y posibilrwydd i'r sector landlord cymdeithasol ehangach gyflawni mwy o ran adfywio ar gefn Adolygiad Essex o dai fforddiadwy yng Nghymru (3)

Nod y pecyn cymorth hwn yw cefnogi landlordiaid cymdeithasol i gynnwys gofynion **'recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu'** (RHT) mewn contractau SATC.

Rhennir y Pecyn cymorth yn dri adnodd cysylltiedig:

Adnodd 1 – canllaw cyflwyniadol sy'n rhoi gwybodaeth allweddol am ddefnyddio RHT fel gofynion craidd drwy gydol y broses gaffael a'r materion i'w hystyried gan ddefnyddwyr posibl

Adnodd 2 – canllaw cynhwysfawr sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion cyfreithiol a pholisi a chymorth ochr gyflenwi sydd ar gael i'w lwytho i lawr ar wefan i2i www.whq.org.uk/i2i mewn fformat PDF

Adnodd 3 – cyfres o **dempledi** i'w llwytho i lawr a'u haddasu o wefan i2i www.whq.org.uk/i2i mewn fformat Microsoft Word

Mae'r arfau a drafodir drwy'r canllaw cyfan hwn yn hyblyg ac er bod y ffocws ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), gellir addasu'r prosesau i'w defnyddio drwy'r sector tai a sectorau eraill. Yn ogystal, er bod y pecyn cymorth yn canolbwyntio'n bennaf ar RHT, gellir mynd ar drywydd buddion cymunedol eraill drwy gontractau SATC a chontractau tebyg.

1.2 Sut i ddefnyddio Adnodd 2

Bydd y canllaw hwn yn helpu landlordiaid cymdeithasol i gyflawni cynhwysiant cymdeithasol drwy:

- ddeall y **sail gyfreithiol** i RHT (adran 2)
- deall y **sail bolisi** i RHT (adran 3)
- ymgorffori cynhwysiant cymdeithasol drwy gydol y **broses gaffael** (adran 4)
- datblygu **gweithredoedd** ochr **gyflenwi** effeithiol (adran 5)
- defnyddio c**ytundebau datblygu** (adran 6)
- nodi **deunyddiau enghreifftiol** i gefnogi RHT

Bydd yr arfau sydd yn y ddogfen hon, yn ogystal ag adnodd 3, yn galluogi defnyddwyr i gyflawni rôl arwain effeithiol yn natblygiad cynaliadwy eu sefydliadau a'r cymunedau a wasanaethant. Mae'r arfau'n hyblyg, a gellir eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n:

- gallu eu haddasu ar gyfer amgylchiadau penodol a hoffterau'r swyddogion dan sylw;
- cydnaws â phrosesau tendro cystadleuol a dyraniad marchnad adnoddau;
- cydnaws â'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu gweithgareddau caffael y defnyddwyr, ac yn gydnaws ag arfer caffael gorau;
- gallu dyrannu'r costau dan sylw i'r ffynonellau mwyaf priodol (sy'n aml yn gyfuniad o'r cyflogwr, y sector cyhoeddus a chyrff hyfforddi diwydiant).

1.3 Deall Buddion Cymunedol

Gallai'r hierarchaeth uchod fod yn gymorth i ddeall y maes polisi a gweithgarwch hwn sy'n dod i'r amlwg:

- Un elfen yw **RHT** mewn amrywiaeth ehangach o fuddion cymunedol y mae angen ei hystyried yn y cyd-destun ehangach;
- Mae **Datblygu Cynaliadwy** yn ymwneud ag integreiddio ein hamcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i wella lles heddiw ac yn y dyfodol
- Mae **Caffael Cynaliadwy** yn ffordd o gyflawni amcan Llywodraeth cyffredin – Datblygu cynaliadwy;
- Mae **Materion Cymdeithasol mewn Prynu** yn ffordd o gynnwys ystyriaethau cymdeithasol mewn caffaeliad yn unol â fframwaith cyfreithiol a pholisi o werth am arian a rheolau UE;
- Mae **Buddion Cymunedol** mewn caffaeliad yn ymwneud â sicrhau bod materion cymdeithasol ac economaidd ehangach yn cael eu hystyried wrth gyd-drafod contractau i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad mor eang â phosibl;
- **RHT** yw un o'r elfennau mewn amrywiaeth eang o fuddion cymunedol a allai gynnwys dechrau busnesau bach, ymgynghoriadau cymunedol, partneriaethau busnes/addysg ac yn y blaen;

Fel y gellir ei weld o 0 isod, mae Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru[1] yn pwysleisio elfennau cyfiawnder cymdeithasol datblygu cynaliadwy.

Mae'r fframwaith cyfreithiol a drafodir yn y pecyn cymorth hwn yn berthnasol i bob agwedd ar gaffael cynaliadwy gan gynnwys cymalau cymdeithasol, buddion cymunedol a RHT; yr amrywiad allweddol yw'r ffordd y caiff gofynion eu nodi a darpariaeth ei mesur a'i monitro. Fodd bynnag, efallai nad y gweithgareddau sydd eu hangen yw'r mater allweddol: gall tensiynau a gwrthwynebiad godi o broses arloesi.

1 Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, 2004-2007, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hawlfraint y Goron 2004

Er enghraifft, gall caffaeliad hyfforddiant gan awdurdod lleol (o goleg neu ddarparwr hyfforddiant preifat er enghraifft) fod yn 'fater cymdeithasol' ond nid yw'n anodd nac yn rhywbeth newydd gan ei fod yn rhan o'r hyn y mae'n ei brynu'n gonfensiynol. Ar y llaw arall, byddai prynu'r un hyfforddiant yn rhan o gontract gwaith i adnewyddu tai yn cael ei ystyried yn 'fudd cymunedol' a gallai fod yn broblemus, yn benodol gan ei fod yn newydd i'r swyddogion dan sylw.

Arloesedd felly yw un o nodweddion gwahaniaethol allweddol materion cymdeithasol a gofynion cymdeithasol. Efallai bydd y diffiniad canlynol yn ddefnyddiol:

> ""Mae gofynion cymdeithasol yn darparu dull o gynnwys materion cymdeithasol ac economaidd mewn contractau ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith nad ydynt yn gonfensiynol yn cynnwys y gofynion hyn fel canlyniadau diffiniedig neu fesuredig."[2]

Mae cymalau cymdeithasol fel RHT yn cynnig:

- cysondeb a thryloywder: y cyfle i'r prynwr nodi angen a throi hwn yn fanyleb y mae'n rhaid i bob cynigydd ei chyflawni;
- y cyfle i ganolbwyntio ar gynnyrch mesuradwy yn hytrach na'r broses gyflawni;
- ymagwedd sy'n gallu bod yn destun gwerthusiad cymharol a fydd yn helpu sicrhau gwerth am arian; a'r
- cyfle i gynnwys gwybodaeth fonitro yn rhan o'r fanyleb, er mwyn i'r prynwr sicrhau y caiff y gwasanaeth y mae'n talu amdano

Mewn perthynas ag arloesi, gellir rhannu'r problemau'n:

- y rheini sy'n berthnasol i fynd ar drywydd gofynion newydd, fel darparu mynediad i'r anabl i adeiladau cyhoeddus neu safonau amgylcheddol newydd; a'r
- rheini sy'n gysylltiedig â'r cyd-destun y mae'r gofynion cymdeithasol yn cael eu cyflwyno ynddo, fel cynnwys hyfforddiant galwedigaethol mewn contract gwaith.

Gallai'r 'arloesi' hwn fod yn newydd i'r sefydliad, neu gall fod yn newydd i'r swyddogion caffael a'u cynghorwyr allanol. Gobeithir y bydd y pecyn cymorth hwn yn darparu deunyddiau a hyder a fydd o gymorth i sefydliadau ac unigolion arloesi ynghylch cynnwys RHT mewn caffaeliad mewn dull diogel ac effeithlon.

1.4 Y Cwestiwn Allweddol

Yn y gorffennol, dywedai'r doethineb confensiynol na ellid cynnwys buddion cymunedol mewn caffaeliad cyhoeddus oherwydd nad yw efallai'n gyfreithiol, gan y byddai efallai'n cynhyrchu gwerth gwael am arian a/neu efallai nad yw'n fforddiadwy. Ers cyhoeddi Achieving Community Benefits Through Contracts yn 2002 mae profiad sylweddol wedi datblygu mewn defnyddio RHT mewn caffaeliad cyhoeddus, yn amlycaf oll yn rhaglenni peilot Gwerth Cymru a Chyfarwyddiaeth Gaffael yr Alban. Felly erbyn hyn y cwestiwn yw: **'sut ydyn ni'n cynnwys buddion cymunedol mewn ffordd sy'n gyfreithiol, yn cyflawni gwerth am arian ac yn fforddiadwy?'** Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn i'w ganfod wrth ddrafftio'r gofynion a sut y caiff y rhain eu hintegreiddio yn y broses gaffael. Mae gweddill y canllaw hwn yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i gyflawni'r canlyniadau cynhwysiant cymdeithasol sydd eu hangen arnoch drwy gaffael.

2 The scope for using social clauses in UK public procurement to benefit the UK manufacturing sector, Report for the Manufacturing Forum (DTI), Anthony Collins Solicitors, Gorffennaf 2006

Bydd yr adran hon yn amlinellu:

- I ba raddau y gall **awdurdodau lleol ac LCCiaid** ddefnyddio **gofynion cymdeithasol mewn contractau**
- Pwerau **Llywodraeth Cynulliad** Cymru i hyrwyddo **datblygu cynaliadwy**
- Rheolau Caffael yr **UE**
- **Cyfraith Achosion** sy'n ymwneud â chymalau cymdeithasol

2.1 Ffiniau Cyfreithiol i Gyrff Cyhoeddus y DU

Mae'r graddau y gall cyrff cyhoeddus ac awdurdodau contractio gynnwys gofynion cymdeithasol yn eu contractau yn dibynnu ar y canlynol:

- a oes ganddynt y pwerau cyfreithiol i wneud hynny neu beidio (neu a oes unrhyw gyfyngiadau neu beidio ar eu pwerau sy'n eu rhwystro rhag gwneud hynny); ac
- a oes seiliau polisi digonol iddynt wneud hynny.

Gan amlaf, mae pwerau awdurdodau contractio fel awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus anadrannol wedi'u gosod mewn statud. Mae gan adrannau Llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig fel Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) gymysgedd o bwerau sy'n deillio o statud a'r uchelfraint frenhinol (i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol). Wrth ystyried a yw awdurdod contractio'n gallu hyrwyddo mentrau polisi cymdeithasol, mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- a oes gan yr awdurdod contractio ar yr olwg gyntaf y pwerau sydd eu hangen, yn glir neu'n ymhlyg, i fynd ar drywydd materion o'r fath er mwyn arfer y swyddogaethau?
- a oes unrhyw waharddiadau clir, sy'n ei atal rhag arfer pwerau felly?
- a nodir unrhyw amodau mewn deddfwriaeth i'w bodloni pe byddai materion felly'n cael eu dilyn yn gyfreithlon?
- a yw'r awdurdod contractio wedi dilyn y gweithdrefnau priodol? – yn benodol unrhyw weithdrefnau y mae wedi'u mabwysiadu ei hun?
- a yw'r awdurdod contractio wedi ystyried yr holl faterion y dylai eu hystyried (egwyddor 'Wednesbury')?

Yn gyffredinol, mae gan adrannau llywodraeth **gyfle llawn** i fynd ar drywydd polisïau felly y mae eu Hysgrifennydd Gwladol perthnasol yn dewis eu mabwysiadu i gefnogi caffael cynaliadwy – y prif ofid yma yw diffyg ymddangosiadol proses glir a chyson i fabwysiadu polisïau sy'n cael eu gweithredu wedyn mewn arfer caffael.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yn destun fframwaith statudol y mae'n werth ei ystyried ychydig yn fanylach o ystyried eu cryfderau prynu.

2.2 Awdurdodau Lleol

Dim ond y pwerau hynny a gyflwynir iddynt drwy statud y caiff awdurdodau lleol eu defnyddio, a dim ond at ddibenion a fwriedir gan statud y cânt ddefnyddio'r pwerau hynny. Yng Nghymru a Lloegr mae ganddynt b_er penodol i gefnogi cynaliadwyedd o dan Ddeddf **Llywodraeth Leol 2000** (a elwir yn gyffredin y pŵer **"lles"**)[3].

O dan Adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:

"Caiff pob awdurdod lleol y p_er i wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn debygol o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

- *hyrwyddo neu wella lles economaidd ei ardal;*
- *hyrwyddo neu wella lles cymdeithasol ei ardal; a*
- *hyrwyddo neu wella lles amgylcheddol ei ardal."*

Gellir arfer y pŵer hwn

"er budd neu mewn perthynas â'r:

- *cyfan neu unrhyw ran o ardal awdurdod lleol; neu*
- *bawb neu unrhyw un sy'n preswylio neu'n bresennol mewn ardal awdurdod lleol"* [1]

Nid yw'r pŵer o dan Adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn galluogi awdurdod lleol i wneud unrhyw beth na all ei wneud yn rhinwedd unrhyw waharddiad, amod neu gyfyngiad ar ei bwerau sy'n cael ei gynnwys mewn unrhyw ddeddfiad (pryd bynnag y'i derbyniwyd neu y'i gwnaethpwyd).

Hyd 2002 ni allai awdurdodau lleol yng Nghymru[4] hyrwyddo materion llafur yn eu caffaeliad heb efallai torri Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988. O dan adran 17(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 roedd materion llafurlu am gael eu trin fel ystyriaethau anfasnachol na ellid eu hystyried mewn gweithgarwch caffael awdurdodau lleol.

Fodd bynnag, erbyn hyn mae gan awdurdodau lleol Cymru fantais Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor ystyriaethau anfasnachol) (Cymru) 2002 ("Gorchymyn 2002"). Roedd Gorchymyn 2002 yn gwella effaith darpariaeth adran 17(5) drwy ei datgymhwyso i:

- delerau ac amodau cyflogaeth gan gontractwyr ar gyfer eu gweithwyr neu gyfansoddiad y trefniadau ar gyfer hyrwyddo, trosglwyddo neu hyfforddi eu gweithluoedd, neu'r cyfleoedd a roddir i'w gweithluoedd;
- ymddygiad contractwyr neu weithwyr mewn anghydfodau diwydiannol rhyngddynt hwy neu unrhyw ran sydd gan weithgareddau busnes contractwyr mewn anghydfodau diwydiannol rhwng pobl eraill.[5]

Gallai'r uchod fod yn ystyriaethau felly yn ystod gweithgarwch caffael awdurdodau lleol Cymru.

Mae'r materion a restrir yn adran 17(5) sydd heb eu cynnwys yng Ngorchymyn 2002 a ddisgrifir uchod yn parhau'n ystyriaethau anfasnachol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu diystyru yn eu hymarferion caffael.

3 O dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol yn yr Alban 2003 mae gan awdurdodau lleol yr Alban b_er penodol i wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn debygol o gyflawni lles y cyfan neu unrhyw ran o'i ardal a/neu'r cyfan neu rywfaint o'r bobl yn yr ardal honno.
4 Yn Lloegr cyflwynwyd y newid cyfwerth ym mis Mawrth 2001.
5 Adrannau 17(5)(a) a (d) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988.

Yn gryno, felly:

- mae gan awdurdodau lleol bellach swyddogaeth gynaliadwyedd wedi'i hymgorffori yn eu p_er 'lles' o dan Ran I o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;
- gall awdurdodau lleol gynnwys materion hyfforddiant, cyflogaeth a gweithlu yng ngofynion eu caffaeliad;
- dylai awdurdodau lleol fynd ar drywydd archwilio eu polisïau ar gyfer materion cymdeithasol/buddion cymunedol yn eu strategaethau cymunedol, cynlluniau gwerth gorau a strategaethau caffael; a
- dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r prosesau caffael arfer gorau sy'n berthnasol i bob corff cyhoeddus (gan gynnwys sôn yn benodol am ofynion cymdeithasol mewn hysbysiadau OJEU).

2.3 LCCiaid a chyrff cyhoeddus anadrannol

Bydd y fframwaith cyfreithiol ar gyfer LCCiaid yn dibynnu'n helaeth ar eu strwythur cyfreithiol. Gan nad yw LCCiaid yn gyrff "cyhoeddus" fel y cyfryw (ond sylwer bod rheolau caffael yr UE yn berthnasol i LCCiaid), nid yw eu pwerau'n cael eu nodi mewn statud yn union yr un ffordd, a gall eu strwythurau cyfreithiol amrywio. Gan amlaf, bydd LCCiaid yn gwmnïau cyfyngedig trwy warant, er bod rhai'n gymdeithasau diwydiannol a darbodus. Mae'r rhan fwyaf o LCCiaid yng Nghymru hefyd yn elusennol.

Mae gan lawer o LCCiaid a chyrff cyhoeddus bwerau ategol neu atodol wedi'u fframio'n eang i'w prif swyddogaethau. Y polisïau a fabwysiadant a fydd felly'n holl bwysig wrth sefydlu'r cwmpas ar gyfer caffael cynaliadwyedd yn ei gyd-destun ehangaf.

Astudiaeth Achos

Detholiad o Reolau Cymdeithasu Tai Cymunedol Cydfuddiannol Cartrefi RCT Cyfyngedig

Amcanion

Amcanion y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol yw rhoi budd i bobl mewn angen drwy reswm tlodi, oedran, anabledd neu salwch yn y gymuned, yn uniongyrchol neu drwy Grwpiau Lleol drwy...

- 3.3 ddatblygiad cymunedol drwy hyfforddiant a rhoi gwybodaeth
- 3.5 cyflwyno strategaethau mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol er lles y gymuned
- 3.7 cyflawni unrhyw amcan elusennol arall y gellir ei gyflawni gan Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus sydd wedi'i chofrestru fel landlord cymdeithasol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Pwerau

Bydd gan y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol y p_er i wneud unrhyw beth y gall person naturiol neu gorfforaethol ei wneud yn gyfreithlon sydd ei angen neu sy'n gyfleus i gyflawni ei amcanion, heblaw fel yr atelir yn benodol yn y Rheolau hyn.

2.4 Llywodraeth Cynulliad Cymru

O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ("Deddf 1998"), rhoddwyd dyletswydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau. Roedd Deddf 1998 hefyd yn mynnu bod y Cynlluniad yn gwneud cynllun datblygu cynaliadwy yn nodi sut yr oedd yn cynnig gweithredu ynghylch y ddyletswydd hon. Rhoddwyd y cyfrifoldeb i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi'r cynllun hwn ar waith a llunio cynllun gweithredu. Bodlonwyd y darpariaethau hyn gan "Dysgu Byw'n Wahanol" ac yn ddiweddarach "Dechrau Byw'n Wahanol" (y cynllun datblygu cynaliadwy), a "Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007".

Cafodd darpariaethau perthnasol Deddf 1988 eu diddymu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), a sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ("LlCC"), gan gynnwys y Prif Weinidog a Gweinidogion eraill Cymru. O dan adran 60 o Ddeddf 2006, **caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried yn briodol er mwyn hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol Cymru.** Gellir arfer y pŵer hwn er budd neu mewn perthynas â Chymru gyfan neu unrhyw ran ohoni, neu bawb neu unrhyw un yng Nghymru.

I bob pwrpas, mae Adran 60 yn rhoi'r un pwerau lles i Weinidogion Cymru ac a roir i awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â sefyllfa Lloegr, lle nad yw'r pŵer na'r ddyletswydd gan Lywodraeth Ganolog i ganolbwyntio ar les ei hardal (neu Loegr cyfan) yn yr un ffordd.

O dan adran 79 o Ddeddf 2006, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud cynllun sy'n nodi sut y cynigiant, wrth arfer eu swyddogaethau, hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae hyn i bob pwrpas yn disodli'r cynllun datblygu cynaliadwy o dan adran 121 o Ddeddf 1998.

2.5 Adrannau Llywodraeth

Mae gan lawer o adrannau Llywodraeth y DU, fel yr Adran Gwaith a Phensiynau, rôl allweddol i'w chwarae yng Nghymru o hyd. Mae pwerau adrannau Llywodraeth i gynnwys gofynion cymdeithasol ac amgylcheddol yn eu caffaeliadau yn gymharol eang ac mae eu gwreiddiau yn yr Uchelfraint Frenhinol. Y broses a ddefnyddiant i sefydlu polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol y mae angen ei hegluro ymhellach. Nid yw'n naid fawr i adrannau Llywodraeth gynnwys yn eu caffaeliadau nid yn unig nodau cynaliadwyedd amgylcheddol ond hefyd mynd i'r afael â thlodi, lleddfu diweithdra neu ddarparu hyfforddiant.
Mae testun contract yn cael ei bennu gan yr hyn mae'r awdurdod yn ei brynu mewn gwirionedd. Bydd y graddau y mae ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol yn rhan o'r broses hon yn dibynnu'n rhannol ar y pryniad penodol, a blaenoriaethau'r adran berthnasol.

2.6 Fframwaith Polisi a Chyfreithiol yr UE

Mae llawer o'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r ffordd y defnyddia awdurdodau cyhoeddus brosesau cystadleuol yn eu caffaeliad yn deillio o **gyfraith Undeb Ewropeaidd,** sy'n seiliedig ar yr egwyddorion sylfaenol canlynol:

- Triniaeth gyfartal a dim gwahaniaethu: rhoi'r un cyfle i bawb ennill y contract heb ystyried eu cenedligrwydd nac a ydynt yn gyfarwydd i'r awdurdod contractio neu beidio;
- Tryloywder: nodi gofynion a meini prawf dyfarnu o'r cychwyn a glynu wrthynt;
- Cymesureddy: gosod gofynion gan gyfeirio at anghenion y contract dan sylw;
- Cydgydnabod: rhoi'r un dilysrwydd i gymwysterau a safonau technegol Aelod-wladwriaethau eraill, lle bo'n briodol.

Bwriad yr egwyddorion hyn yw **chwalu rhwystrau** rhag masnach rhwng yr Aelod-Wladwriaethau a chreu marchnad fewnol rydd yn yr UE drwy hwyluso contractwyr o bob cwrs o'r UE i gynnig am yr un contractau cyhoeddus. Mae'r nodau hyn yn cael eu cydbwyso mwyfwy ag amcanion eraill gan gynnwys gwarchod yr amgylchedd, ymladd allgáu cymdeithasol ac amddifadedd, ac amddiffyn defnyddwyr.

Mae fframwaith cyfreithiol caffaeliad cyhoeddus yr UE yn cynnwys:

- **rhai o ddarpariaethau'r Cytuniadau Cymuned, yn bwysicaf oll Erthyglau 28 (symud nwyddau'n rhydd), 43 (rhyddid sefydlu) a 49 (rhyddid i ddarparu gwasanaethau) yng Nghytuniad yr UE; a**
- **chyfarwyddebau caffael yr UE sy'n rheoleiddio gweithdrefnau dyfarnu o ran contractau uwchlaw gwerth penodol. Gweithredir y rhain yng Nghymru drwy fodd offeryn statudol sy'n gosod rheoliadau i lywodraethu caffaeliad gwaith, nwyddau a gwasanaethau. Yn benodol, cafodd Cyfarwyddeb 2004/18/EC, y cyfeirir ati'n aml fel y 'Gyfarwyddeb Gyfunol' gan ei bod wedi disodli tair cyfarwyddeb ar wahân ar waith, cyflenwadau a gwasanaethau, ei gweithredu yng Nghymru gan Reoliadau Contractau Cyheoddus 2006, ar 31 Ionawr 2006.**

Mae rheolau caffael yr UE yn gweithredu'n bennaf ar dair lefel:

- gofynion ar gyfer hysbysebu ar draws yr Undeb Ewropeaidd gontractau am waith, nwyddau a gwasanaethau (gwneir hyn drwy roi hysbysiad contract yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd – OJEU);
- annog defnyddio safonau technegol a chymeradwyaethau sy'n cael eu cymhwyso ledled yr UE neu gydnabod safonau technegol a chymeradwyaethau sydd mewn grym mewn aelod-Wladwriaeth arall lle bo'r rhain o safon debyg i'r rheini mewn grym yn y DU; a
- gofynion ar gyfer meini prawf gwrthrychol ac agored i werthuso tendrau a dewis contractwyr.

Mae rheolau caffael yr UE yn cynnwys ystod eang o gyrff a chontractau. Mae 'awdurdodau contractio', y term a ddefnyddir yn y rheolau, yn cynnwys adrannau llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus anadrannol, ond hefyd 'cyrff a lywodraethir gan gyfraith gyhoeddus', term sy'n cynnwys sefydliadau a sefydlwyd i fodloni anghenion yn y diddordeb cyffredinol, heb gymeriad diwydiannol na masnachol, ac sydd naill ai'n:

- cael eu cyllido'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan awdurdod contractio arall;
- yn destun goruchwyliaeth reoli gan awdurdod contractio arall; neu
- mae dros hanner eu bwrdd cyfarwyddwyr neu aelodau wedi'i benodi ar gyfer awdurdod contractio arall.

Gan eu bod yn darparu tai cymdeithasol, ystyrir bod LCCiaid yn **'bodloni anghenion yn y diddordeb cyffredinol'** a hynny **'heb gymeriad diwydiannol na masnachol'.** O 2004 ymlaen, mae Llywodraeth y DU wedi derbyn bod gan y Gorfforaeth Dai (sy'n awdurdod contractio ei hun) ddigon o bŵer dros LCCiaid i ansoddi 'goruchwyliaeth reoli'. Mae hyn yn golygu bod LCCiaid yn cael eu hystyried yn **'gyrff a lywodraethir gan gyfraith gyhoeddus'** ac felly, awdurdodau contractio.

Mae'r rheolau'n ymdrin â phob contract dros drothwy[6] penodol, heblaw contractau ar gyfer gwasanaethau 'Rhan B', sy'n cynnwys pethau fel gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau addysgol, a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, dylai contractau am wasanaethau Rhan B gael eu gosod mewn dull sy'n dryloyw, teg ac nad yw'n rhoi cynigyddion o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE o dan anfantais. Mae cyfraith achosion wedi nodi y bydd hyn yn golygu ar y cyfan fod angen hysbysebu, er nad oes angen cynnal proses gaffael lawn yr UE.

2.7 Y Gyfarwyddeb Gyfunol

Fel y nodwyd yng nghyfarwyddyd Swyddfa'r Llywodraeth **"Social Issues in Purchasing",** mae'r Gyfarwyddeb Gyfunol yn egluro'r cwmpas i ystyried materion cymdeithasol ac amgylcheddol yn y cyfnodau perthnasol yn y broses gaffael. Mae'r Gyfarwyddeb Gyfunol yn dweud llawer mwy am bwnc ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol na chyfarwyddebau blaenorol, yn ei datganiadau nad ydynt yn rhwymo ond sy'n ddylanwadol a'i herthyglau.

Recital 1 of the Consolidated Directive states:

"Dywed Datganiad 1 o'r Gyfarwyddeb Gyfunol ei bod yn seiliedig ar gyfraith achosion y Llys Cyfiawnder, yn benodol cyfraith achosion ar feini prawf dyfarnu, sy'n egluro'r posibiliadau i'r awdurdodau contractio fodloni anghenion y cyhoedd dan sylw, gan gynnwys yn yr ardal amgylcheddol a/neu gymdeithasol, ar yr amod bod meini prawf o'r fath yn gysylltiedig â thestun y contract, nad ydynt yn cyflwyno rhyddid dewis anghyfyngedig ar yr awdurdod contractio, bod sôn penodol amdanynt a'u bod yn cydymffurfio â Rhwymedigaethau'r Cytuniad."

Mae datganiadau sy'n cefnogi materion amgylcheddol a chymdeithasol eraill, fel gweithdai gwarchod, gan gynnwys eco-labeli mewn manylebau a chynnwys ymgymeriadau bach a chanolig yn y farchnad caffael contractau cyhoeddus. Yn ogystal, mae erthyglau sy'n llywodraethu gweithdai gwarchod a gofynion amgylcheddol. Yn fwyaf penodol yng nghyd-destun y papur hwn, dywed Datganiad 33:

"Mae amodau perfformiad contract yn gydnaws â'r Gyfarwyddeb hon ar yr amod nad ydynt yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol wahaniaethol ac yn cael eu nodi yn yr hysbysiad contract neu'r dogfennau contract. Efallai y bwriedir, yn benodol, iddynt ffafrio hyfforddiant galwedigaethol ar y safle, cyflogi pobl sy'n cael anhawster penodol yn integreiddio, y frwydr yn erbyn diweithdra neu warchod yr amgylchedd. Er enghraifft, efallai y sonnir, ymhlith pethau eraill, am y gofynion – sy'n berthnasol yn ystod perfformiad y contract – i recriwtio ceiswyr swydd tymor hir neu roi camau hyfforddi ar waith i'r di-waith neu bobl ifanc, i gydymffurfio'n gyffredinol â darpariaethau Confensiynau sylfaenol y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO), gan dybio nad yw darpariaethau felly wedi'u gweithredu mewn cyfraith genedlaethol, ac i recriwtio mwy o bobl dan anfantais nag sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth genedlaethol."

Yn Natganiad 46 mae'r gydnabyddiaeth ganlynol:

"Er mwyn sicrhau triniaeth gyfartal, dylai'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r contract alluogi tendrau i gael eu cymharu a'u hasesu'n wrthrychol. Os bodlonir yr amodau hyn, gall meini prawf economaidd ac ansoddol ar gyfer dyfarnu'r contract, fel bodloni gofynion amgylcheddol, alluogi'r awdurdod contractio i fodloni anghenion y cyhoedd dan sylw, fel y nodir ym manylebau'r contract. O dan yr un amodau, caiff awdurdod contractio ddefnyddio meini prawf sy'n anelu at fodloni gofynion cymdeithasol, mewn ymateb yn benodol i anghenion – a ddiffinnir ym manylebau'r contract – grwpiau o bobl o dan anfantais benodol y mae'r rheini sy'n cael/defnyddio'r gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau sy'n destun y contract yn perthyn iddynt."

6 Ar hyn o bryd, mae'r trothwyon at ddibenion caffael yr UE wedi'u gosod ar:

- Cyflenwadau: £139,893 (Đ206,000)
- Gwasanaethau: £139,893 (Đ206,000)
- Gwaith: £3,497,313 (Đ5,150,000)

Mae gan Erthygl 26 o'r Gyfarwyddeb Gyfunol y ddarpariaeth glir hon:

"Caiff awdurdodau contractio osod amodau arbennig sy'n gysylltiedig â pherfformiad contract, ar yr amod bod y rhain yn gydnaws â chyfraith Gymunedol ac yn cael eu nodi yn yr hysbysiad contract neu yn y manylebau. Efallai bydd yr amodau sy'n llywodraethu perfformiad contract yn ymdrin, yn benodol, ag ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol. "

Caiff hyn ei drosi yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 gan reoliad 39 sy'n nodi:

(1) Caiff awdurdod contractio osod amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad contract cyhoeddus, cyhyd â bod yr amodau hynny'n gydnaws â chyfraith Gymunedol ac yn cael eu nodi yn:
(a) yr hysbysiad contract a'r dogfennau contract; neu'r
(b) dogfennau contract.

(2) Gallai'r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)gynnwys, yn benodol, ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Bu rhai achosion pwysig yn Llys Cyfiawnder Ewrop mewn perthynas â chymalau cymdeithasol mewn contractau cyhoeddus sydd wedi effeithio ar y Gyfarwyddeb Gyfunol ac sy'n parhau i ddatblygu siâp y gyfraith fel y caiff ei dehongli gan y llysoedd. Caiff y rhain eu crynhoi yn y tabl isod.

Nid yw'r holl achosion yn hawdd i'w cysoni â'i gilydd na'u cysoni â chyfarwyddyd cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd ond maent yn sefydlu rhai egwyddorion pwysig sy'n berthnasol i gynnwys RHT a materion cymdeithasol eraill mewn caffaeliad gan awdurdodau contractio, gan gynnwys:

- mae'n bosibl cynnwys gofynion RHT mewn caffaeliad cyhoeddus ar yr amod nad yw'r drafftio na'r broses yn rhoi cynigyddion nad ydynt yn lleol o dan anfantais, er enghraifft drwy fynnu bod ganddynt wybodaeth am y farchnad lafur leol, neu ganolfan leol, neu'n defnyddio deunydd lleol;
- caniateir gofynion amgylcheddol (a thrwy oblygiad) cymdeithasol sy'n mynd i'r afael ag amcan polisi'r prynwr: nid oes angen iddynt roi budd economaidd i'r prynwr; a
- rhaid bod modd mesur a gwirio pob gofyniad.

Astudiaeth Achos

Mae awdurdodau lleol yn dal yn destun cyfraith achosion ynghylch at ba ddibenion y gallant arfer eu pwerau. Codwyd cwestiwn 'dibenion priodol' yn R v Lewisham LBC, ex p Shell UK . Yn yr achos hwnnw, roedd yr awdurdod lleol wedi mabwysiadu polisi o wrthod prynu cynhyrchion Shell UK os oedd cynhyrchion cyfwerth ar gael rywle arall ar delerau rhesymol. Y rheswm am y polisi oedd aelodaeth Shell UK o grŵp amlgenedlaethol o gwmnïau â chysylltiadau masnachu â De Affrica (er nad oedd Shell UK ei hun yn masnachu yn Ne Affrica). Nododd y Llys y buasai'r polisi'n gyfreithlon pe byddai wedi'i fabwysiadu o ddyhead i hyrwyddo cysylltiadau hiliol da yn yr ardal yn unig, gan fod gofyniad cyfreithiol i ystyried yr angen i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol. Fodd bynnag, dylanwadwyd y polisi hefyd gan y dyhead i roi pwysau ar Shell i ddiddymu ei gysylltiadau masnachu â De Affrica, a barnodd y Llys fod hwn yn "ddiben diangen ac annerbyniol".

Fodd bynnag, ni wnaeth y Llys egluro'n union pa ystyriaethau eilaidd a waherddir. Mae'n debyg bod achos Shell yn caniatau defnyddio caffaeliad i fynd ar drywydd unrhyw bolisïau a roddwyd yng ngofal yr awdurdod gan ddarpariaethau deddfwriaethol eraill, hyd yn oed os nad yw posibilrwydd defnyddio ei brosesau contractio i gefnogi polisïau felly yn cael ei ystyried yn glir.

Tabl 1: Canllaw Byr i Gyfraith Achosion Caffaeliad Ewropeaidd Perthnasol

Enw'r Achos	**Cyfeirnod yr Achos**	**Pwyntiau Allweddol i'w Cofio**
Beentjes	Gebroeders Beentjes B.V. v The State (Netherlands) (C31/87)	Mae amod contract sy'n nodi bod yn rhaid i'r Contractwr gyflogi pobl ddi-waith dymor hir yn gallu bod yn gydnaws â'r rheolau, cyhyd ag y glynir wrth egwyddorion cyffredinol Cytuniad yr UE.
Nord-Pas-de-Calais Region	Commission v the French Republic (C225/98)	Gellir cymhwyso maen prawf dyfarnu 'llafur lleol' fel maen prawf 'ychwanegol' os yw'r asesiad MEAT o gynigion ar sail gwbl economaidd wedi datgelu "dau neu fwy o dendrau sy'n economaidd gywerth". Sylwer: Dylid trin yr achos hwn â gofal.
Finnish Buses	Concordia Bus Finland Oy Ab (formerly Stagecoach Finland Oy Ab) v (1) Helsingin Kaupunki (2) HKL–Bussiliikenne (2002) (C-513/99)	Mae hawl gan awdurdodau contractio gynnwys ystyriaethau amgylcheddol (a, thrwy oblygiad, cymdeithasol) yn eu meini prawf dyfarnu. Nid oes angen i'r rhain fod yn gwbl economaidd. Mae angen iddynt: • fod yn gysylltiedig â thestun y contract; • peidio â chyflwyno rhyddid dewis anghyfyngedig i'r awdurdod; • cael eu crybwyll yn benodol yn y dogfennau contract neu hysbysiad tendr; a • chydymffurfio â holl egwyddorion sylfaenol cyfraith gymunedol, yn benodol egwyddor dim gwahaniaethu.
EVN	(1) EVN AG (2) Wienstrom GMBH v Republic of Austria (2003) (C-448/01)	Rhaid bod modd gwirio cywirdeb y wybodaeth a geisir gan gynigyddion mewn perthynas â gofynion amgylcheddol (a, thrwy oblygiad, cymdeithasol). Ni chaniateir meini prawf dyfarnu nad ydynt yn gysylltiedig â thestun y contract.
Insalud	Contse SA v Insalud (Now Ingesa) (2005) (C-234/03)	Barnwyd bod gofyniad cyn-gymhwyso i gontractwr gael safle mewn ardal ddaearyddol benodol yn wahaniaethol ac yn anghyfiawn.
De Pont de Nemours Italiana and Laboratori Bruneau	Du Pont de Nemours Italiana SpA v Unità Sanitaria Locale No. 2 Di Carrara [1991] 3 CMLR 25 and Laboratori Bruneau Srl v Unità Sanitaria Locale RM/24 De Monterotondo [1991] 1 CMLR 707	Roedd yn wahaniaethol mynnu bod cynigyddion yn cael cyfran osodedig o'u cyflenwadau o ranbarth penodol.
Commission v Italy	EC Commission v Italy [1991] 2 CMLR 115	Roedd yn wahaniaethol mynnu bod contractwyr yn cael eu dewis dim ond o blith cwmnïau yr oedd y cyfan neu fwyafrif eu cyfalaf cyfranddaliadau mewn perchenogaeth gyhoeddus.

Bydd yr adran hon yn amlinellu:

- Cyfarwyddyd y DU am **faterion cymdeithasol mewn prynu**
- **Polisi Datblygu Cynaliadwy** LlCC
- **Llywodraethu** a **rheoleiddio LCCiaid**
- Sut i ystyried **Strategaethau Cymunedol**
- Y gwahaniaeth rhwng **Gwerth am Arian a Fforddiadwyedd**

3.1 Cyfarwyddyd y DU – 'Materion Cymdeithasol mewn Prynu'

Ym mis Chwefror 2006 cyhoeddodd Swyddfa Masnach y Llywodraeth ei chyfarwyddyd Social Issues in Purchasing (y "Nodyn Cymdeithasol"), a gynlluniwyd i egluro ymhellach sut y gellir ymgorffori materion felly'n gyfreithlon yn y cylch prynu. Mae'n atgyfnerthu arfer da mewn caffaeliad gan bwysleisio:

- bod yn rhaid i faterion cymdeithasol fod yn berthnasol i destun y contract;
- bod yn rhaid i gamau fod yn gyson â pholisi caffaeliad llywodraeth sy'n seiliedig ar werth am arian; a
- bod yn rhaid ystyried caffaeliad cynaliadwy o safbwynt cost oes gyfan.

Mae'r Nodyn Cymdeithasol yn cynnwys ystod eang o faterion cymdeithasol, gan gynnwys: buddion cymunedol, safonau llafur craidd; materion anabledd a chydraddoldeb; materion cyflogaeth a hyfforddiant; masnach deg; cydraddoldeb rhwng y rhywiau; cydraddoldeb hiliol; busnesau bach a chanolig; sgiliau gweithlu (gan gynnwys sgiliau sylfaenol oedolion).

Mae'r Nodyn Cymdeithasol yn fwy cadarnhaol na drafftiau cynharach, gyda nifer o gamau cadarnhaol yn cael eu gosod i ymgorffori materion cymdeithasol mewn caffaeliad yng nghwahanol gyfnodau y broses brynu, gan ymdrin â: chyd-destun strategol; datblygiad achos busnes; manylebu; dewisiadau; gwerthuso tendr; a rheoli contract. Mae'n werth nodi y derbynnir:

"y gellir diffinio **gofyniad craidd** fel rhan **hanfodol** o'r contract, a dylid adlewyrchu hyn ym **manylebau** ac **amodau'r** contract ... Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl i fater cymdeithasol fod yn ofyniad craidd ar yr amod ei fod yn ganolog i destun caffaeliad ac yn gyson â'r rheol ... ".

Felly'r cwestiwn allweddol i'w ateb mewn unrhyw gaffaeliad yw **pryd y mae amcan cymdeithasol yn elfen hanfodol o gontract.** Y prynwr sy'n gorfod penderfynu hyn ar sail ei bwerau a'i bolisïau. Fel y gellir ei weld o Adran 2 uchod, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru y pwerau yn rhan o'r darpariaethau 'lles', a rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o LCCiaid yn cael amcanion adfywio a datblygu cymunedol eang wedi'u cynnwys yn eu cyfansoddiadau. Yn y cyd-destun hwn mae penderfynu cynnwys RHT neu fuddion cymunedol eraill yn ofyniad craidd mewn caffaeliad yn dibynnu ar y polisïau a fabwysiadwyd gan y prynwr.

Cymhwyswyd yr egwyddor hon gan Lywodraeth y DU; mae nifer o feysydd lle ymgorfforwyd gofynion polisi cymdeithasol mewn dogfennaeth caffaeliad cyhoeddus a chontract neu eu hawgrymu mewn cyfarwyddyd Llywodraeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys dilyn y Cod Gweithlu Dwy Haen (gyda dogfennaeth dempled wedi'i chynhyrchu gan 4Ps / I&DeA); gwell cysylltiadau hiliol a materion cydraddoldeb (gan CRE); manylebau templed manwl a luniwyd gan y Fenter Caffael Bwyd Sector Cyhoeddus (DEFRA); a dogfennaeth dempled ar gyfer delio â ffactorau amgylcheddol o gyrff llywodraeth/rhwydwaith arall amrywiol.

3.2 Polisi Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru

Fel y trafodwyd uchod, mae gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Gweinidogion Cymru lunio cynllun datblygu cynaliadwy. Nid yw'n ymddangos bod hyn wedi'i gyhoeddi ar gyfer y cyfnod o 2008 ymlaen. Fodd bynnag, mae cynllun ar gyfer 2004 – 2007 o dan ddeddfwriaeth flaenorol a chynllun gweithredu perthnasol, yn parhau ar waith. Yn y cynllun hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn egluro:

"bydd egwyddorion a galwedigaeth y Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn ysgogi popeth a wnawn. Byddwn yn integreiddio'r rhain yn ein gwaith ac yn weithgar yn gofyn neu'n dylanwadu eraill, er enghraifft awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, busnes, y sector gwirfoddol a chymunedau, i wneud yr un peth i gyflawni newid. Byddwn yn ceisio eu galluogi i wneud hynny".

Mae'r datganiad uchod yn darparu sail bolisi eang i annog awdurdodau lleol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn eu holl weithgareddau. Mae'n amlwg hefyd fod nodau datblygu cynaliadwy yn cynnwys cyfiawnder cymdeithasol a datblygu sgiliau; amcanion y mae defnyddio RHT mewn caffaeliad yn anelu at eu cyflawni:

"Bydd y Cynulliad yn mynd ar drywydd dyfodol cynaliadwy i Gymru, ar sail partneriaeth effeithiol, yn seiliedig ar:

- hyrwyddo economi gwerth ychwanegol uchel, cystadleuol, amrywiol, gyda sgiliau ac addysg uchel, sy'n ymateb i gyfleoedd datblygu cynaliadwy, yn lleihau hawliadau ar yr amgylchedd ac yn gwneud y mwyaf o ddosbarthu'r buddion;
- gweithredu ynghylch cyfiawnder cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â thlodi, iechyd gwael, a chanlyniadau anfantais ac yn darparu i bobl a'u cymunedau ddulliau i helpu eu hunain dorri'r cylch tlodi ...;
- gwerthfawrogi pawb yn y gymdeithas a hyrwyddo cyfle cyfartal."

Mae Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-07 yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â materion cynhwysiant cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol:

"mae'r economi'n gwneud yn dda ond mae gormod o bobl yn dal yn ddi-waith ac yn dioddef amddifadedd"[7]

"Mae dyfodol ein heconomi a'n cymdeithas yn nwylo ein pobl a'n lleoedd – pobl â sgiliau, lleoedd sy'n denu pobl i fyw a gweithio ynddynt, ac amgylchedd sy'n annog busnesau i ffynnu."[8]

Mae safiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynhwysiant cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol, fel y darlunnir yn y Cynllun Gweithredu a Strategaeth Datblygu Cynaliadwy, yn rhoi sail bolisi eang i gyrff cyhoeddus ac eraill yng Nghymru gynnwys materion cynhwysiant cymdeithasol yn eu caffaeliad, gan gynnwys RHT.[9]

7 Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hawlfraint y Goron 2004 tudalen 5
8 Ibid tudalen 10
9 Dechrau Byw'n Wahanol: Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hawlfraint y Goron 2004, tudalen 5

3.3 Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Cymru

Mae'r buddsoddiad yn SATC yn gyfle pwysig i LCCiaid weithredu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Cymru. Efallai yr ystyrir bod yr ymrwymiadau a wneir yn hyn yn ddigon fel sail bolisi i gynnwys RHT yn eu caffaeliadau. Fodd bynnag, gellir rhagweld y bydd llawer yn cynnwys cynhwysiant cymdeithasol yn rhan o'u hamcanion a'u cyfres o ddogfennau polisi, gan gynnwys eu strategaeth gaffael, neu'n dymuno gweld hwn yn cael ei gynnwys yn benodol wrth i'r dogfennau hyn gael eu datblygu.

Mae Cod Rheoliadol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru[10] yn egluro bod LCCiaid Cymru yn cael eu hannog i ystyried materion cynaliadwyedd yn eu gweithgareddau. O dan ddisgwyliad allweddol 1.1.2, dywed y Cod Rheoliadol:

> "Wrth ddarparu cartrefi newydd, a yw egwyddorion datblygu cynaliadwy'n cael eu hymestyn hefyd i'r gymuned gyfan a'i hamgylchedd?"[11]

Un o'r disgwyliadau allweddol sy'n berthnasol i Gyfle Cyfartal yw:

"2.3.1 Dylai cymdeithasau fynd ati i hyrwyddo:

- parch at amrywiaeth;
- cyfle cyfartal;
- dileu gwahaniaethu yn eu holl weithgareddau; a
- chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol."[12]

Detholiad o Strategaeth Gorfforaethol Cymdeithas Tai Unedig Cymru
3.1.2 Amcan: Cefnogi twf drwy fuddsoddi yn ein cymunedau
Targedau:

- Ar gyfer pob cynllun datblygu newydd, adolygu cyfleoedd i ychwanegu gwerth drwy waith buddsoddiad cymunedol gan edrych ar gynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd ochr yn ochr â'r gwerthusiad ariannol;
- Datblygu a gweithredu cymalau cynhwysiant cymdeithasol cadarn ar gyfer pob contract datblygu newydd;
- Ymateb yn rhagweithiol i weithgareddau heblaw gweithgareddau tai ym Mlaenau'r Cymoedd;
- Hyrwyddo, drwy integreiddio, ddatblygiad sgiliau crefft lleol.

10 Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006.
11 Ibid, tudalen 4.
12 IIbid, tudalen 15.

3.4 Strategaethau Cymunedol

Disgwylir i bob awdurdod lleol weithio gyda phartneriaid (gan gynnwys LCCiaid lleol a/neu ranbarthol) i lunio strategaeth gymunedol. Mae'r rhain yn amrywio mewn arddull a chynnwys rhwng awdurdodau; fodd bynnag, nid ydynt fel arfer yn cael eu drafftio fel sail i gefnogi cynnwys materion recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu yng nghaffaeliadau neu gytundebau eraill y partneriaid. Gallai hyn godi gan fod amrywiaeth o bartneriaid yn ymwneud â'r broses ddrafftio, gan gynnwys rhai (e.e. y Ganolfan Byd Gwaith, y Cyngor Dysgu a Sgiliau a Connexions) nad yw'r ymagwedd yn berthnasol iddynt, a rhai nad yw'n flaenoriaeth iddynt ar hyn o bryd (e.e. Ymddiriedolaethau GIG – er byddai RHT yn helpu i leihau galw am eu gwasanaethau).

Mae LCCiaid yn aml yn ymwneud ag awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r strategaeth gymunedol a gellid ystyried cynnwys y testun canlynol er mwyn darparu sail bolisi i gynnwys RHT a materion cymdeithasol eraill yn eu contractau caffaeliad a chytundebau eraill:

"Bydd y Partneriaid yn parhau i ddefnyddio eu pwerau i gyd, ble bynnag y gallant, i wneud unrhyw beth yr ystyriant y bydd yn hyrwyddo neu'n gwella lles yr ardal. Ymhlith y camau i'w cymryd y mae:

- sicrhau bod cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli mewn cyflogaeth ar bob lefel sy'n gyfwerth â'u cynrychioliad yn y boblogaeth leol;
- datblygu gweithlu sy'n fedrus iawn ac yn uchel ei gymhelliant ac sy'n gallu bodloni anghenion sgiliau'r economi yn wirioneddol;
- sicrhau bod cyflogwyr yn recriwtio'n lleol cymaint â phosibl, gan gynnwys darparu hyfforddiant a chefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a'r rhai sy'n dychwelyd i'r farchnad lafur;
- darparu'r sgiliau i breswylwyr gystadlu am y gyflogaeth sy'n cael ei chreu gan fuddsoddiad newydd mewn gwasanaethau cyhoeddus a menter breifat, a'u galluogi i achub ar gyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy.

3.5 Gwerth am Arian

Diffiniad o Werth am Arian	Diffiniad o Werth Gorau
... y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan ac ansawdd (neu addasrwydd at ddiben) i fodloni gofynion y defnyddiwr. (Swyddfa Masnach y Llywodraeth 1998)	... gwneud trefniadau i wella'n barhaus y ffordd yr arferir ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (1999 Cymdeithas Llywodraeth Leol a.3(1))

Gwerth am arian yw un o ofynion craidd caffaeliad da a nodwyd gan Lywodraeth. Mae 'Gwerth Gorau' yn cyflwyno dynameg ychwanegol i awdurdodau lleol: disgwylir i'w caffaeliad gynhyrchu 'gwelliant parhaus'. Mae'n rhaid barnu a yw tendr yn darparu gwerth am arian (neu werth gorau) mewn perthynas â'r gofynion yn y fanyleb, a'r rheini yn unig. Felly os caiff gofynion RHT eu cynnwys yn y broses gaffael gan fod hwn yn rhan o'r 'ansawdd' y mae'r prynwr yn ei geisio, dylent ffurfio rhan o'r gwerthusiad tendr, hyd yn oed os rhoir pwysiad isel i hyn.

I'r gwrthwyneb, os nad yw gofynion RHT yn cael eu cynnwys yn yr Hysbysiadau Contract a'r fanyleb, ni ddylent ffurfio unrhyw ran o'r broses ddyfarnu.

3.6 Fforddiadwyedd

Rhaid gwahaniaethu rhwng fforddiadwyedd a gwerth am arian, (neu werth gorau ar gyfer awdurdod lleol). Mae fforddiadwyedd yn gysylltiedig â'r gyllideb sydd ar gael. Mae pryderon yn seiliedig yn nodweddiadol ar wybodaeth brin am yr hyn y bydd cynnwys gofynion RHT penodol yn ei ychwanegu at gost datblygu – felly maent yn cynrychioli ofn cost ychwanegol yn hytrach na'r costau ychwanegol gwirioneddol.

Mae fforddiadwyedd a gwerth am arian (neu werth gorau) yn wahanol felly. Fodd bynnag, y ffordd orau o fynd i'r afael â'r ddau yw ystyried yn gynnar pa ofynion RHT y dylid eu cynnwys er mwyn bodloni amcanion polisi'r prynwr – gan gynnwys polisïau cymdeithasol a pholisïau gwella gwasanaeth – a sut y gellir cynllunio'r rhain i gyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael.

Cyn astudiaeth beilot Budd Cymunedol mewn Caffaeliad nid oedd digon o dystiolaeth o effaith cynnwys gofynion RHT mewn contract ar werth am arian. Fodd bynnag, yn seiliedig ar sgôr o 344 holiadur cyn-gymhwyso ac 84 Datganiad Dull RHT, mae astudiaeth achos Cymdeithas Tai Glasgow yn nodi:

- nad oedd cynnwys gofynion RHT ym mhob cam yn y caffaeliad wedi atal cynigyddion;
- y cynigyddion â'r sgoriau uchaf ar y cyfan – yn y cyfnod holiadur cyn-gymhwyso a thendr – oedd y rheini a sgoriodd uchaf hefyd ar y gofynion RHT.

Ym mhob achos, roedd y gofynion buddion cymunedol yn helpu'r awdurdodau contractio i gyflawni eu hamcanion polisi heb gost ychwanegol i'r contractau.

Ffynhonnell: 'Community Benefits in Public Procurement', Llywodraeth yr Alban, Caeredin 2008, tudalen 22

Bydd yr adran hon yn amlinellu:

- Sut i ystyried **Strategaeth Gaffael**
- Sut i gynnwys gofynion RHT drwy gydol y **broses gaffael (gan gynnwys testun enghreifftiol** y gellir ei ddefnyddio)
- Sut i **osod** a **monitro** targedau
- Cyflogi **Hyrwyddwr** i sicrhau bod gofynion RHT yn cael eu bodloni

4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi cyfarwyddyd am ddefnyddio gofynion RHT drwy gydol y broses gaffael, o'r trywydd llwybr polisi cychwynnol i'r rôl monitro a gwerthuso.

Argymhellir y dylai RHT (a materion cymdeithasol eraill) mewn manyleb/contract fod yn rhan o **'elfennau craidd'** yr hyn sy'n cael ei brynu. Dyma fater i'r awdurdod prynu ei benderfynu ar sail ei bwerau a'i bolisïau, ond sylwer **bod yn rhaid cyfeirio** at yr elfennau craidd **yn yr Hysbysiadau Contract** (gweler isod), ac na ddylid drafftio'r gofynion mewn ffordd sy'n rhoi cynigyddion nad ydynt yn lleol o dan anfantais, er enghraifft drwy fynnu recriwtio neu gyflenwadau 'lleol'.

Mae'n bwysig bod pob prynwr yn penderfynu a fydd yn cynnwys materion cymdeithasol yn ei gaffaeliad a sut os felly, drwy bob un o'r camau canlynol

- mabwysiadu polisïau clir;
- creu cyllideb ar gyfer y gweithgarwch, a allai gynnwys hwyluso a chyngor, monitro ac olrhain cynnydd, a chyfraniadau at gostau hyfforddi;
- yr achos busnes ar gyfer y caffaeliad;
- yr Hysbysiad Contract OJEU;
- yr Holiadur Cyn-gymhwyso;
- y Fanyleb a'r Gwahoddiad i Dendro/Cyd-drafod/Cyfranogi mewn Deialog;
- yr Amodau Contract;
- y broses ddyfarnu (lle bo'r materion cymdeithasol yn ofynion craidd); a
- gweithredu Contract (gan gynnwys monitro)

Mewn rhai amgylchiadau , efallai bydd RHT yn cael ei gynnwys fel elfen nad yw'n elfen graidd, er enghraifft oherwydd na chafodd cyfeiriad ei gynnwys mewn Hysbysiadau Contract a gyhoeddwyd eisoes, neu gan fod y prynwr yn pryderu am gysondeb â dogfennau safonol. Yn yr amgylchiadau hyn gellir cynnwys y materion RHT a materion cymdeithasol eraill yn y fanyleb a'r amodau contract ond ni ddylid eu hystyried wrth ddyfarnu'r contract. Mae'n ddilys cynnwys cwestiynau mewn perthynas â RHT yn y cyfnod holiadur cyn-gymhwyso os yw RHT yn amod contract: mae angen i'r prynwr wybod bod y contractwr yn gallu cyflawni amodau'r contract. Ar gyfer sefyllfaoedd lle nad yw RHT wedi'i ymgorffori yn y broses gaffael, mae Atodiad [5] yn darparu protocol digytundeb y gellir ei ddefnyddio i gael ymrwymiadau gwirfoddol.

Mae'r rhan fwyaf o gyfraith achosion ar faterion cymdeithasol mewn caffaeliad yn gysylltiedig â chwestiwn i ba raddau y gall mater nad yw'n fater craidd ddylanwadu dyfarnu contract. Y cyngor gorau yw na ddylai ddylanwadu. Mae cyfraith achosion yn cefnogi'r ymagwedd mai'r prynwr sy'n dewis gofynion craidd y contract, yn seiliedig ar ei bwerau a'i bolisïau, ar yr amod nad yw'r rhain wedi'u drafftio fel eu bod yn rhoi cynigyddion o dan anfantais os nad ydynt yn lleol.

Rhaglen Gynhwysiant 'Sefydlog' Cartrefi RCT

Mae Cartrefi RCT yn ceisio cyflawni ei ymrwymiadau cynhwysiant cymdeithasol drwy'r gadwyn gyflenwi i'w gontractwyr – sef isgontractwyr gwaith a chyflenwyr gweithgynhyrchu/gwasanaeth. Ei fwriad yw cynnwys cyflogwyr lleol cymaint â phosibl wrth gyflawni ei raglen buddsoddiad cyfalaf: cyflogwyr sy'n gallu cynnig cyflogaeth barhaus i bobl leol.

Mae'r ymagwedd yn dibynnu ar ddau addewid o gydweithredu:

- mae prif gontractwyr a chyflenwyr yn cytuno i recriwtio mentrau cymdeithasol lleol a busnesau bach a chanolig i gyflawni'r gwaith a'r cyflenwadau wedi'u gweithgynhyrchu; ac
- mae mentrau cymdeithasol lleol a busnesau bach a chanolig yn cytuno i recriwtio, hyfforddi a chyflogi preswylwyr lleol di-waith tymor hir i helpu i gyflawni'r contractau cysylltiedig ag RCT – gan weithio gyda Construction Jobmatch (gweler isod).

Mae Cartrefi RCT wedi ymrwymo y bydd 15% o'r gweithlu a gyflogir yn ei gadwyn gyflenwi ac i gyflawni ei waith yn newydd-ddyfodiaid i'r sector adeiladu. Roedd y meini prawf gwerthusiad tendr yn rhoi 15% o'r marciau ar gael ar gynigion contractwyr am gynhwysiant cymdeithasol.

Cynlluniwyd y broses dendro i sicrhau y gall cwmnïau lleol gystadlu'n deg â phryderon mwy drwy waredu rhwystrau traddodiadol, fel profion trosiant, a thrwy alluogi contractwyr i gynnig am waith yn ôl eu maint yn hytrach na maint cyffredinol y gwaith sydd ei angen.

Cynhaliwyd rhaglen i baratoi'r gadwyn gyflenwi leol, a oedd yn cynnwys:

- digwyddiadau ymwybyddiaeth i 'baratoi' contractwyr a'u cyflwyno i asiantaethau cefnogi;
- cyflwyniadau i'r prif gontractwyr;
- hyfforddiant ar 'gadw cyfrifon agored';
- cysylltu â darparwyr hyfforddiant lleol; a
- threfniadau monitro ac adrodd.

Yn sgil y rhaglen baratoi, cafwyd 144 o ddatganiadau o ddiddordeb, y cyflwynodd 90 ohonynt holiaduron cyn-gymhwyso ac y gwahoddwyd 41 ohonynt i dendro. Ym mhob cam roedd cynrychioliad busnesau lleol rhwng 30 a 60%, gan arddangos bod cynllun a rheolaeth y broses wedi llwyddo i greu maes cystadlu gwastad lle gallai contractwyr llai, lleol gystadlu ar bris ac ansawdd yn unig.

Dyfarnwyd £97m o gontractau o dan fframweithiau PPC2000, llyfr agored. Dyfeisiwyd contract SPC2000 arbennig i amddiffyn isgontractwyr a chadw egwyddorion partneru yn y gadwyn gyflenwi. Mae contractwyr wedi dechrau ar y safle ac wrthi'n cynnal cynlluniau peilot cyn y rhaglen lawn, sydd i ddechrau ar ddiwedd mis Gorffennaf 2008.

Dyfarnwyd mwyafrif y gwaith i gwmnïau lleol gyda chadwyn gyflenwi leol yn cael ei defnyddio gan y partneriaid strategol. Mae pump o'r chwe phartner strategol a benodwyd yn lleol, gyda'r chweched yn sefydlu canolfan newydd yng Nghymru ac wedi ymrwymo i ddefnyddio 70% o isgontractwyr lleol. Felly mae ymagwedd Cartrefi RCT at ddatblygu cadwyn gyflenwi wedi sicrhau cadwyn gyflenwi gwbl leol, gan gynnwys:

- prisiau a gwarantau ffafriol ar nwyddau a gyflenwir i fasnachwyr lleol;
- datblygiad a chefnogaeth i fasnachwyr gwarantedig;
- cynnig – sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd – i sefydlu uned cyfosod ceginau lleol;
- canghennau newydd i'w hagor gan ddau gyflenwr cydrannau trydanol a gwaith adeiladu ac ehangu mewn gweithrediadau masnachwyr eraill a oedd yn bodoli eisoes; a
- chyfleoedd hyfforddiant yn y gwaith i brentisiaid.

Disgwylir y bydd 120 o swyddi adeiladu newydd (24 prentisiaeth a 96 o swyddi eraill) yn cael eu creu drwy g yfnod cyntaf y gwaith mawr: bydd contractwyr partneru strategol yn darparu 59 o gyfleoedd, a'r gadwyn gyflenwi 61 o gyfleoedd.

Mae'r ymagwedd llyfr agored yn gwneud yr holl fuddsoddiad mewn hyfforddiant, cyflogaeth a buddion cymdeithasol yn hollol dryloyw.

Cyswllt: Andrew Lycett, Prif Weithredwr, Cartrefi RCT, Tŷ Pennant, Stryd y Felin, Pontypridd, CF37 2SW, Ffôn 01443 494406, E-bost: AndrewL@rcthomes.co.uk

4.2 Strategaeth Gaffael

Mae'r canlynol yn darparu testun y gellid ei gynnwys mewn strategaeth gaffael neu strategaeth gorfforaethol. Dylid nodi nad oes unrhyw gyfeiriad penodol at yr ardal y tynnir y buddiolwyr ohoni, ond mae'n gyfreithlon i gorff cyhoeddus gael polisi o gynhyrchu buddion lleol o'i gaffaeliad a gweithgareddau eraill ar yr amod nad yw'r camau a gymera yn rhoi cwmnïau o dan anfantais os nad ydynt yn lleol nac yn torri deddfwriaeth cyfle cyfartal y DU.

Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu a Chyfleoedd Cadwyn Gyflenwi
Mae [.....] (nodwch enw) wedi ymrwymo i gyflawni lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'w breswylwyr a rhoi'r Strategaeth Gymunedol ar waith er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i bawb, heddiw ac i genedlaethau i ddod. I gyflawni hyn mae'n ymrwymo i'r camau canlynol i'r graddau mwyaf posibl yn y fframweithiau cyfreithiol a pholisi perthnasol a'r cyllid sydd ar gael:

I. I. ystyried pa gyfleoedd recriwtio a hyfforddi, cyfle cyfartal a chadwyn gyflenwi y gellid eu cael o bob contract gwaith gyda gwerth a amcangyfrifir yn fwy na [£...m] a phob contract gwasanaethau gyda gwerth a amcangyfrifir yn fwy na [£.....];
II. cynnwys gofynion hyfforddiant, cyfle cyfartal a recriwtio, a chyfleoedd cadwyn gyflenwi yn ei ofynion gwasanaeth, lle bo'n ystyried bod hyn yn briodol;
III. cynnwys materion cymdeithasol ac amgylcheddol eraill yn ei ofynion gwasanaeth, lle bo'n ystyried bod hyn yn briodol; a
IV. defnyddio'r gofynion hyn ym mhob cam yn y broses dewis a dyfarnu contract, ac fel amodau contract.

Cyflwynwyd y gwerthoedd trothwy y sonnir amdanynt ym mhwynt I uchod fel canllaw i swyddogion cleient. Dylid disgwyl iddynt ymgynghori â swyddogion hyfforddiant a chyflogaeth y prynwr a phartïon eraill mewn perthynas â phob contract dros y gwerthoedd hyn. Dylid canolbwyntio ar gontractau mwy a fydd yn sicrhau'r buddion cymunedol mwyaf posibl o'r amser swyddog a fuddsoddir.

Mae'r testun a gynigir yn fwriadol o amhenodol yn y buddion a geisir. Er enghraifft, nid yw'n nodi y bydd y prynwr yn ceisio cael cyfleoedd i gymunedau penodol – pobl ddi-waith tymor hir, pobl ifanc, cyn-droseddwyr, ffoaduriaid neu bobl sy'n byw mewn ardaloedd penodol. Mae hyn oherwydd dylai'r strategaeth fod yn barhaol: dylai allu para amser hir heb fod angen ei diwygio wrth i flaenoriaethau newid.

4.3 Proses Gaffael

Cam 1: Achos Busnes

Er mwyn cyfiawnhau achos busnes yn llawn, dylai awdurdod contractio ddrafftio d**iffiniad lefel uchel o'i ofynion prosiect i sicrhau bod dealltwriaeth glir a chytundeb o'r nodau busnes a'r hyn sy'n ofynnol gan gontractwyr i gyrraedd y nodau hynny.**

Cyn dechrau strategaeth gaffael dylai awdurdod contractio asesu i ba raddau y gallai'r caffaeliad gyflawni RHT a buddion cymdeithasol eraill (fel cyfraniad at bolisïau a strategaethau'r prynwr) a chynnwys hyn yn yr achos busnes ar gyfer y caffaeliad.

Wrth baratoi achos busnes mae'n rhaid i awdurdod contractio ystyried llawer o faterion, gan gynnwys:

- cadarnhau bod ganddo'r pwerau a'r polisïau i gynnal y caffaeliad, gan gynnwys y materion cymdeithasol dymunol;
- sicrhau y gwneir darpariaethau ariannol ar gyfer y prosiect cyfan, gan gynnwys canlyniadau cymdeithasol fel anghenion hyfforddiant;
- sicrhau y gellir meintoli a mesur ei holl amcanion cymdeithasol, a fydd yn helpu i werthuso i ba raddau maent yn cynrychioli gwerth am arian; a
- nodi buddiolwyr bwriadedig y gofynion RHT ac ar ba raddfa, a sicrhau y gellir cyflawni'r gofynion yng nghyd-destun adnoddau'r ochr gyflenwi a'r trefniadau hwyluso a monitro.

Ar ôl i achos busnes gael ei ddatblygu, dylai fod awdurdod contractio'n gallu gwerthfawrogi'r holl faterion dan sylw a'r hyn a fydd yn ofynnol gan gontractwr.

Ar ôl i awdurdod contractio baratoi ei achos busnes am gaffaeliad, rhaid ei fod yn gallu cadarnhau bod yr achos yn gadarn a dichonadwy. Ar gyfer ystyriaethau cymdeithasol, bydd hyn yn golygu sicrhau ei fod yn ddigonol i gyflawni amcanion yr awdurdod contractio (gan gynnwys unrhyw faterion cymdeithasol neu amgylcheddol) a'i fod yn fforddiadwy a chyraeddadwy.

Cam 2: Hysbysiad Contract OJEU

Os yw awdurdod contractio'n defnyddio ystyriaethau cymdeithasol mewn amodau contract, rhaid sôn am hyn mewn unrhyw Hysbysiad Contract OJEU. Awgrymir y geiriad enghreifftiol canlynol, yn nodweddiadol o dan yr adran yn yr Hysbysiad Contract OJEU o dan y teitl "Gwybodaeth Ychwanegol".

"O dan y [caffaeliad / prosiect] hwn mae gofyn i'r [contractwr / datblygwr] gyfranogi'n weithgar mewn adfywio economaidd a chymdeithasol ardal a chyffiniau'r man cyflawni ar gyfer y [caffaeliad/prosiect]. Yn unol â hynny, caiff amodau perfformiad contract fod yn berthnasol yn benodol i ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol."

Cam 3: Holiadur Cyn-gymhwyso

Mewn unrhyw holiadur cyn-gymhwyso gellir defnyddio'r cwestiynau canlynol yn yr adran o'r holiadur sy'n asesu medr a gallu technegol:

Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu a Chyfleoedd Cadwyn Gyflenwi

1 Rhowch enghreifftiau o'ch rhan ym mhob un o'r canlynol:

- cynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ddi-waith dymor hir;
- darparu cyfleoedd hyfforddiant i bobl ifanc a'u cadw ar ôl cwblhau'r hyfforddiant;
- hyrwyddo cyfleoedd cadwyn gyflenwi i fentrau newydd a bach;
- datblygu sgiliau crefft yn eich gweithlu presennol; a
- gweithdrefnau recriwtio cyfle cyfartal.

Beth oedd eich union ran ym mhob un o'r gweithgareddau uchod?

2 Pa rai o'r enghreifftiau y sonioch amdanynt a fu'n fwy llwyddiannus, a pha rai oedd yn llai llwyddiannus, a pham?"

Cam 4: Manyleb

Mae'r fanyleb yn nodi'r gofynion manwl ar gyfer y contract, gan gynnwys y buddion cymdeithasol/cymunedol (sy'n seiliedig yn ddelfrydol ar yr achos busnes). Mae enghreifftiau o destun posibl i'w gynnwys yn y fanyleb yn cael eu cynnwys fel Atodiadau 1-4 yn Adnodd 3.

Er bydd y manylion yn amrywio o'r naill gontract i'r llall, mae nifer o elfennau cyffredin sy'n cael eu cynnwys mewn manylebau 'budd cymunedol'. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhywfaint o gyfeirio at y sail bolisi neu gyfreithiol i'r gofynion;
- dangosyddion perfformiad mesuradwy naill ai yn y fanyleb neu yn yr adendwm, sy'n gysylltiedig â'r:
- canlyniadau gofynnol, a/neu
- broses recriwtio y mae'n rhaid ei dilyn (e.e. ar gyfer swyddi gwag ar y safle);
- gofynion monitro ac adolygu perfformiad; a
- ymwrthodiad i amddiffyn cleient rhag 'hawliadau' sy'n gysylltiedig ag unrhyw ymyriadau ochr gyflenwi a wna.

Yn yr un modd â phob elfen arall o'r fanyleb, bydd angen gofal wrth bennu **pa ofynion hyfforddiant a chyflogaeth (neu fudd cymunedol ehangach) sy'n briodol a chyraeddadwy.** Mae angen drafftio'r rhain mewn cymalau sy'n ddiamwys ac yn darparu 'maes cystadlu gwastad' yn y broses dendro i gontractwyr. Un elfen allweddol o gyflawni'r 'maes cystadlu gwastad' hwn efallai yw argaeledd asiantaethau ochr gyflenwi sy'n gallu sicrhau mynediad cyfartal at hyfforddeion, cyflogeion priodol a chwmnïau bach i gontractwyr, ble bynnag y maent.

Cam 5: Proses Ddyfarnu

Mae'n arfer da gofyn i gynigyddion gyflwyno gyda'u tendr (neu ymateb i wahoddiad i gyd-drafod/cyfranogi mewn deialog) **ddatganiad dull sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni'r gofynion cymdeithasol. Os yw'r materion RHT neu gymdeithasol eraill yn elfennau craidd o'r caffaeliad gellir sgorio'r datganiad dull hwn, a chynnwys y sgôr hon yn yr asesiad ansoddol o'r tendr.** Os nad yw'r gofynion cymdeithasol yn elfennau craidd, dylid diystyru'r datganiad dull yn y broses ddyfarnu ond gellir ei ddefnyddio mewn eglurhad cyn penodi os yw gweithredu'n amod contract.

Os yw'r elfennau cymdeithasol/RHT am gael eu sgorio, dylid defnyddio fframwaith sgorio i sicrhau gwerthusiad cadarn a theg o ddatganiadau dull. Dylid datblygu hwn naill ai gan bobl â gwybodaeth dda am faterion hyfforddiant a recriwtio neu gyda'r bobl hyn; dylai'r rhain hefyd fod yn rhan o'r tîm gwerthuso tendr.

Mae fframwaith sgorio:

- yn rhestru'r pynciau lle disgwyliwyd ymateb gan y cynigydd, gyda phob pwnc yn cael pwysiad (nifer o bwyntiau); ac
- yn rhestru'r mathau o gamau y disgwyliwyd eu cynnig o dan bob pwnc, gyda phob cam wedyn yn cael pwysiad – dadansoddiad o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer y 'pwnc' hwnnw.

Awgrymir templed yn Atodiad [6] yn Adnodd 3.

Dylai'r tîm gwerthuso brofi'r fframwaith sgorio a'i ddefnyddio wedyn i sgorio pob tendr a gyflwynir. Caiff y sgoriau canlyniadol eu hymgorffori wedyn i elfen 'ansawdd' 30% o'r gwerthusiad, er enghraifft. Mewn caffaeliadau a gynhaliwyd gan Gymdeithas Tai Glasgow roedd gofynion cymdeithasol yn cyfrannu 5% o'r sgoriau gwerthuso tendr ansawdd – tua 1.5% o'r sgôr gyffredinol. Mae Cartrefi RCT[13] wedi dadlau bod angen i'r pwysiad fod yn uwch i ddylanwadu ymddygiad cynigyddion: roedd y cyfleoedd cyflogaeth a chadwyn gyflenwi yn 15% o'r sgoriau dyfarnu cyffredinol ar gyfer eu caffaeliadau cychwynnol.

Pa bynnag ddull a ddefnyddir, dylid cyhoeddi datganiadau dull profforma i sicrhau bod pob cynigydd yn ateb yr un cwestiynau ac yn rhoi'r un wybodaeth graidd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod maes cystadlu gwastad yn cael ei osod rhwng cynigyddion ac yn atgyfnerthu'r neges nad elfennau gwirfoddol nac "ymdrechion gorau" o'r contract mo'r rhain, ond gofynion cytundebol.

Cam 6: Amodau Contract

Gellir datblygu amodau contract penodol fesul prosiect. Mewn prosesau caffael sy'n rhoi lle i gyd-drafod (er enghraifft ar sail cynllun cyflawni gwasanaeth neu ddatganiad dull) gellir ymgorffori cymalau penodol mewn dogfennaeth gontract i glymu'r contractwr/datblygwr wrth dargedau a chanlyniadau penodol.

Gellir defnyddio'r cymalau enghreifftiol yn Atodiad [7] o Adnodd 3 fel man cychwyn i bob caffaeliad, gan gynnwys y rheini a gaiff eu cynnwys yn rheolau'r UE. Cânt eu drafftio ar y sail y bydd y contractwr wedi cyflenwi cynllun cyflawni gwasanaeth/datganiad dull sy'n foddhaol i'r cyflogwr sy'n nodi sut y bydd yn cynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth.

13 Cartrefi RCT yw'r LCC a sefydlwyd drwy drosglwyddo stoc o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

4.4 Gosod a monitro targedau

Mae angen ystyried yn sylweddol pa ofynion RHT i'w cynnwys yn y broses gaffael – yn ddelfrydol yn y cyfnod achos busnes. Y cwestiynau allweddol wrth bennu hyn ddylai fod:

- beth yw maint lleiaf (o ran hyd a gwerth) contract lle bydd canlyniadau RHT yn cael eu ceisio?
- beth yw'r 'buddion cymunedol' blaenoriaeth y gellir mynd i'r afael â hwy drwy'r contract penodol hwn?
- beth yw goblygiadau cost cynnwys gwahanol fuddion cymunedol, a gwahanol dargedau cynnyrch, a sut bydd y costau hyn yn cael eu talu?
- pa fuddion cymunedol y gellir eu cynnwys heb beryglu blaenoriaethau allweddol eraill (fel gwerth am arian, ansawdd a'r amserlen i gwblhau)?
- beth yw'r ffordd orau o fesur y gofynion budd cymunedol – ar gyfer gosod a monitro targedau? a
- sut bydd y tîm cleient yn rheoli gwybodaeth fonitro a phwy a fydd yn olrhain cynnydd yr elfennau budd cymunedol?

Buddiolwyr Priodol

Mae'r rhan fwyaf o gontractau'n gymhleth ac amlweddog. Mae'r gofynion RHT yn eu cymhlethu ymhellach ac os ydynt am gael eu hystyried yn briodol – gan y contractwr a'r swyddogion cleient – mae angen iddynt fod yn ychydig o ran nifer a hynny â ffocws cryf. Mae tri chwestiwn i'w gofyn:

- pwy yw'r buddiolwyr a fwriedir a beth yw eu hanghenion?
- pa rai o'r anghenion hyn y gellir eu bodloni drwy'r contract penodol hwn?
- a oes cydbwysedd i'w gael rhwng anghenion y buddiolwyr (e.e. am hyfforddiant a chymorth) a nifer yr hyfforddeion y gellir eu cyflogi ar y contract?

Un mater cyffredin yw efallai na fydd y buddiolwyr blaenoriaeth ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â 'chyflenwad' lleol hyfforddeion a cheiswyr swydd yn meddu ar y sgiliau na'r gallu sydd eu hangen os yw'r contractwr/cyflenwr am integreiddio niferoedd sylweddol yn ei weithlu. Efallai bod y gymysgedd orau o fuddiolwyr yn cynnwys ymadawyr ysgol a choleg ac oedolion di-waith tymor hir sydd wedi cael hyfforddiant cyn recriwtio.

Yn yr ymagwedd a nodir yn Adnodd 3 cyfrifoldeb y contractwr yw cael gwybodaeth am gyflenwi hyfforddiant a hyfforddeion a cheiswyr swydd eraill, ac wedyn llunio cymysgedd a fydd yn cyflawni gofynion y cyflogwr mewn modd fforddiadwy. Mae dylanwad y cyflogwr ar y gymysgedd o fuddiolwyr yn gyfyngedig i ddarparu gwybodaeth 'ochr gyflenwi', ceisio 'eglurhad' yn y trafodaethau cyn contract neu gyd-drafod newidiadau ar ôl penodi. Mae angen yr ymagwedd 'hyd braich' hon i amddiffyn y prynwr rhag hawliadau ariannol sy'n gysylltiedig â recriwtio'r buddiolwyr targed gan y contractwr, ond efallai na fydd yr asiantaethau ochr gyflenwi yn ei deall yn llawn.

Costau Rheoli

Bydd cost ymgorffori gofynion RHT – i'r contractwyr ac felly'n aml i'r cleient – yn amrywio gyda'r gofynion. Mae newidynnau allweddol yn cynnwys:

- a oes rhaid i'r buddiolwyr gael eu cyflogi neu eu croesawu'n unig am brofiad gwaith heb dâl neu brawf gwaith;
- a ellir recriwtio buddiolwyr cyflogedig o gynllun sy'n cynnwys pecyn cyllid, darpariaethau hyfforddiant galwedigaethol, rheoli hyfforddiant a chymorth i hyfforddeion;
- maint yr hyfforddiant sydd wedi'i gwblhau cyn mynd ar y safle;
- mynediad at adnoddau hyfforddiant diwydiant i brentisiaid a hyfforddi'r gweithlu ;
- darparu cysylltiadau da neu wybodaeth o ansawdd am yr hyfforddiant, cefnogaeth a chyllid sydd ar gael o ffynonellau cyhoeddus a diwydiant i helpu'r contractwr gyflawni'r gofynion; a'r
- y ffordd y caiff y gofynion eu geirio: a yw'r cynigyddion yn cael y cyfle i brisio am yr elfennau RHT – ac os felly ai dyma'r gost net ar ôl didynnu grantiau ac ati – neu a ddywedir wrhynt fod rhaid iddynt ganfod unrhyw adnoddau ychwanegol?

Dylai contractwyr da wybod am y trefnau hyfforddiant yn eu diwydiant drwy'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol neu ffynonellau eraill a dylai fod ganddynt gysylltiadau â cholegau a darparwyr hyfforddiant eraill, a dylent felly fod yn y sefyllfa orau i gael at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt.

Gosod Targedau

Er mwyn i dargedau RHT gael eu derbyn mae'n bwysig cynnwys aelodau'r tîm caffael wrth eu gosod. Bydd hyn yn eu helpu i asesu'r risg i ofynion allweddol eraill fel ansawdd, cwblhau amserol a chost.

Mae'n bosibl defnyddio technegau mesur meintiau ac indecsau diwydiant i amcangyfrif gallu contract i wneud lle i hyfforddeion. Bydd syrfewyr adeiladu'n gallu cynghori am gost fras pob datblygiad newydd a'r gyfran o'r gost hon a gaiff ei gwario ar lafur. Bydd y gyfran hon yn amrywio rhwng mathau o adeilad a rhwng meysydd crefft. Drwy rannu'r gwerth hwn wrth gost lafur wythnosol gyfartalog dybiedig mae'n bosibl cyfrifo (yn fras) nifer yr wythnosau person sydd eu hangen i gyflawni'r contract. O hyn, gall rywun weld goblygiadau mynnu canran benodol o gyfanswm yr wythnosau person i'w chyflawni gan hyfforddeion newydd.

Bydd cynnwys syrfëwr y prynwr yn y cyfrifiad hwn yn sicrhau ei fod yn deall sut y cyrhaeddwyd unrhyw darged.

Datblygwyd model cronfa ddata mwy soffistigedig gan Davis Langdon Management Consulting ymhlith eraill ac mae ar gael o dan drwydded.

Mantais allweddol y model rhagweld yw ei fod yn rhoi dadansoddiad o wythnosau person rhwng meysydd crefft/sgil. Mae hyn yn golygu y gellir ystyried targedau'n fwy soffistigedig. Er enghraifft, mewn gweithgarwch 'crefft' gall un prentis lenwi 'wythnosau hyfforddai newydd' am sawl blwyddyn, sy'n effeithio ar nifer y bobl a fyddai'n cael eu recriwtio. Mewn rhai gweithgareddau gallai'r llwyth gwaith fod yn gymharol fach ac mae'n rhaid diystyru'r wythnosau hyfforddai gan na fyddent yn rhoi llawer o werth i hyfforddai newydd. Ar y llaw arall, gallai fod yn bosibl nodi gweithgaredd gwaith lle bo'n bosibl cael cyfleoedd i niferoedd sylweddol o fuddiolwyr, er enghraifft drwy ddarparu cyflogaeth am gyfnod cyfyngedig i hyfforddeion sydd wedi cwblhau rhaglen hyfforddi bwrpasol cyn recriwtio, efallai fel gweithredwr cyffredinol. Felly manylaf y wybodaeth hawsaf yw deall sut i osod targedau cyraeddadwy.

14 Model Rhagweld Sgiliau Davis Langdon. Cysylltwch â David Crossthwaite ar 020 7061 7840

Mae defnyddio fformiwla neu gronfa ddata i ragweld y cyfleoedd tebygol a fyddai'n codi o gontract hefyd yn darparu'r opsiwn i osod y targedau fel nifer o wythnosau cyflogaeth yn hytrach na chanran o gyfanswm wythnosau yn unig. Mae gan hyn fanteision yn yr ymagwedd swm blaendal (gweler Adnodd 3) a gall wneud monitro'n haws.

Mae'r drafodaeth uchod yn gysylltiedig â gallu'r contract i dderbyn y buddiolwyr targed, yn benodol newydd-ddyfodiaid. Fodd bynnag, mae angen hefyd ystyried cyflenwi buddiolwyr addas:

- a oes digon o bobl o'r cymunedau targed sydd eisiau cael eu cyflogi? ac
- a yw'r adnoddau hyfforddi a hwyluso ar gael i alluogi contractwyr i gyflawni'r maint a'r math hwn o gynnyrch?

Mesur Buddion Cymunedol

Mae'r prif angen am 'fesur' priodol yn codi wrth osod targedau RHT a monitro perfformiad y contractwr o ran recriwtio, hyfforddi a darparu cyfleoedd cadwyn gyflenwi. Mae'n gymorth i fabwysiadu a chyflawni gofynion budd cymunedol / RHT os gellir nodi'r gofynion hyn mewn ffordd glir a'u monitro'n hawdd. Targedau rhifol yw'r hawsaf i'w monitro. Mae angen bod modd gwirio gofynion i'w caniatáu o dan gyfraith yr UE.

Gellir gosod targedau mewn sawl ffordd, gan gynnwys y canlynol:

- canran o gyfanswm yr amser llafur sy'n ofynnol i gyflawni'r contract;
- nifer benodol o fuddiolwyr (er enghraifft, cyflogeion, hyfforddeion, lleoliadau gwaith, cyflenwyr ychwanegol);
- nifer benodol o wythnosau cyflogi yn y contract i fuddiolwyr;
- gwneud pob cyfle ar gael i asiantaethau a enwir;
- nifer benodol o wythnosau buddiolwr i bob swm penodol mewn gwerth contract;
- nifer benodol o wythnosau buddiolwr yr uned dai neu fetr sgwâr o le llawr masnachol.

Cymdeithas Tai Glasgow (GHA)

Mae GHA yn buddsoddi tua £200m y flwyddyn mewn gwaith Tai Gweddus drwy gontractau fframwaith. Mae'r contractau hyn yn cynnwys yr amod canlynol y mae'n rhaid ei gyflawni mewn ffordd gost-niwtral:

Mae 10% o'r wythnosau person sy'n ofynnol i gwblhau'r holl waith (gan gynnwys y gwaith hwnnw a gyflawnir gan isgontractwyr) am gael ei gyflawni gan newydd-ddyfodiaid sydd â chontract prentisiaeth, hyfforddiant neu gyflogaeth â'r contractwr neu is-gontractwr ac sy'n ymgymryd â rhaglen hyfforddi a dderbynnir gan GHA.

I fonitro'r gofyniad hwn, sefydlodd GHA gronfa ddata sy'n cofnodi cyfanswm yr wythnosau person a ddefnyddiwyd gan bob contractwr, yr wythnosau person a gyflawnwyd gan 'gyflogeion newydd', a'r gyfran o'r rhain a gyflawnir gan bobl sy'n 'hyfforddeion dechrau newydd' – wedi'u rhannu rhwng prentisiaid ac eraill. Mae GHA yn mynnu bod pob gweithiwr wedi'i gofrestru ar ddechrau ei gyflogaeth gan ddefnyddio profforma, ac wedyn rhestr wythnosol o'r amser y mae pob gweithiwr cofrestredig ar y safle. Mae'r data hwn yn caniatáu i GHA gyflwyno adroddiadau manwl ar y canlyniadau i bob contractwr, a chynnal dadansoddiad manwl o'r buddiolwyr (e.e. yn ôl ardal breswyl, nodweddion personol, crefft neu hyfforddiant sy'n cael ei wneud).

Ar ôl 30 mis, mae GHA wedi cyflawni'r canlyniadau a ddangosir yn y tabl isod. Mae'r holl ganlyniadau'n agos at, neu uwchlaw, y targed 10% o 'newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant' a osodwyd, ac mae dau weithgaredd 50% uwchlaw'r targedau. Efallai bod y ffaith bod bron 80% o'r 13,000 o wythnosau buddiolwr yn cael eu darparu gan brentisiaid (yn hytrach na gweithredwyr adeiladu cyffredinol a hyfforddeion cwrs byr) yn ganlyniad y 'gofyniad cost niwtral', gan fod llwybrau cyllido sefydledig i brentisiaid ond nid newydd-ddyfodiaid eraill.

Canlyniadau Newydd-ddyfodiaid dan Hyfforddiant GHA Mehefin 2008 (Mae pob ffigur mewn wythnosau person o gyflogaeth).

Enw Contract	Cyflogai	Dechreuadau newydd*	Prentis	Hyfforddai	Cyfanswm Newydd-ddyfodiaid	% Newydd ddyfodiaid
			(A)	(B)	(A + B)	
Ailweirio Trydano – Domestig	24,141	8,281	1,842	364	2,206	9.14%
Gwaith Amgylcheddo	4,157	891	28	602	630 1	5.16%
Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi	34,675	9,089	4,508	809	5,317	15.33%
Toi a Chladin	40,434	7,159	4,021	867	4,888	12.09%
Cyfanswm	103,407	25,420	10,399	2,642 1	3,041	12.61%

Ffynhonnell: GHA Gorffennaf 2008 Cyswllt: Helen Jackson, Programme Coordinator, Regeneration Team, Glasgow Housing Association, Third Floor, 177 Trongate, Glasgow G1 Ffôn 0141 274 6491 E-bost Helen.Jackson@gha.org.uk

Meincnodau

Mae prinder gwybodaeth gadarn am ganlyniadau contractau â gofynion RHT er mwyn adrodd meincnodau dibynadwy. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr ymagweddau amrywiol a ddefnyddiwyd i nodi gofynion ac i fesur canlyniadau. Rhoir rhai canlyniadau defnyddiol, dangosol isod:

- Yng Nghymdeithas Tai Glasgow mae bron 15% o'r amser sy'n ofynnol i gyflawni ei buddsoddiad safon Tai Gweddus tai cymdeithasol yn cael ei gyflawni gan hyfforddeion sy'n newydd-ddyfodiaid, mewn perthynas â tharged 10%, heb unrhyw gost i'r cleient;
- Mae gan GM Procure darged o 52 wythnos o gyflogaeth ar gyfer hyfforddai newydd am bob £1m mewn cost llafur contract ar gontractau fframwaith safon Tai Gweddus, a dylai gyflawni hyn yn ail flwyddyn cyflawni'r contract – sy'n gyfwerth â rhyw 10% o'r gofyniad llafur cyfan;
- Nododd astudiaeth o bum prosiect adeiladu yng ngogledd ddwyrain Lloegr a oedd wedi defnyddio dylanwad cytundebol fod un hyfforddai newydd ar gyfartaledd i bob £750,000 ar wariant adeiladu (Amion Consulting i'r Panel Cyflogaeth Cenedlaethol);
- Yn Stirling cafodd Raploch Urban Regeneration Company 104 wythnos o brofiad safle i wyth hyforddai ar gontract ffordd newydd £1.3m (tua 10% o'r llafur a ddefnyddiwyd) – roedd yr hyfforddeion yn 'rhydd ar y safle' ond yn cael hyfforddiant ar y safle ac oddi ar y safle;
- Yn y 1990au cynnar yn Waltham Forest Housing Action Trust roedd 20% o'r wythnosau person gofynnol i gyflawni tai cymdeithasol newydd yn cael eu cyflawni gan hyfforddeion newydd a gafodd eu recriwtio o'r Ystâd lle'r oedd y gwaith yn cael ei wneud;
- Yn Kings Cross Central, sef datblygiad preswyl a masnachol cymysg deuddeg mlynedd, mae'r datblygwr wedi derbyn gofyniad Cytundeb Cynllunio y bydd 7.5% o'r gofynion llafur adeiladu cyfan yn cael eu cyflawni gan hyfforddeion newydd wedi'u recriwtio o'r ffynhonnell a enwir.

Ar sail y data hwn byddai'n debyg fod targed lleiaf o 52 wythnos newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant i bob £1m mewn gwariant adeiladu yn briodol i'r gwaith SATC, gyda'r posibilrwydd o wthio hyn i 78 wythnos i bob gwariant £1m am y gwaith adeiladu newydd. Mae angen cynyddu'r targedau hyn os yw'r contract ar gyfer llafur yn bennaf, er enghraifft os yw'r prif gydrannau'n cael eu prynu gan y cleient yn hytrach na'r contractwr.

Mae gosod a monitro nifer y 'swyddi newydd' mewn adeiladu yn broblemus gan fod cynifer o swyddi ar y safle yn para cyfnod byr ac mae'n anodd gwahaniaethu rhwng cyflogeion presennol – gan gynnwys y rheini sy'n hunangyflogedig – a drosglwyddir i'r safle a gweithwyr sy'n cael eu recriwtio i'r safle, yn benodol gan isgontractwyr. Argymhellir gosod targedau fel 'wythnosau person o waith' yn hytrach na thasgau.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2007/08 GM Procure

Cyflogaeth Gynaliadwy Gynyddol		**Targed Blynyddol:**	**Gwirioneddol i fis Ionawr:**
Contractwyr Rhaglen GM Procure yn recriwtio cyflogeion newydd	Nifer y cyflogeion sy'n cael eu recriwtio i bob rhaglen	2 i bob contract llafur £1m (targed 07/08 = 54)	55
I sicrhau bod cyflogeion newydd yn cael eu cadw gan y cyflogwr	% cadw dros gyfnod 18 mis	80%	94%
Ansawdd Canlyniadau Cyflogwr a Hyfforddiant		**Targed:**	**Gwirioneddol:**
Cyflogeion newydd yn gweithio tuag at gymhwyster priodol	% o weithlu hyfforddeion yn gweithio tuag at NVQ Lefel 2 o leiaf	100%	100%
Cyflogeion newydd yn datblygu sgiliau a phriodoleddau ehangach	Mae cynllun datblygu personol (CDP) ôl-NVQ 2 priodol ar waith i bob hyfforddai	100%	100%
Ffynhonnell: GM Procure, Manceinion. 2008 Cyswllt: Mike Brogan, GM Procure, Orchard Court, Orchard Place, Timberley, WA15 7XH Ffôn 0161 968 0377 E-bost Mike.Brogan@gmprocure.com			

Monitro ac Olrhain Cynnydd

Mae angen i ofynion monitro ystyried:

- sut caiff y gofynion RHT eu nodi a'u mesur;
- gofynion darparwyr adnodd allanol; a'r
- adnoddau sydd ar gael i archwilio ac olrhain cynnydd.

Dylid felly ystyried y gofynion monitro yn gynnar – yn ddelfrydol yn y cyfnod achos busnes a phan fydd targedau'n cael eu gosod, a dylid eu cynnwys yn y fanyleb i roi'r hawl i'r cleient i'r wybodaeth. Ni ddylid mynnu bod data'n cael ei ddarparu nad yw'r cleient yn bwriadu ei ddefnyddio, gan y contractwr.

Dylid ystyried y pwyntiau canlynol wrth fonitro elfennau RHT mewn contractau:

- sut gellir gwirio'r gwaith monitro data, yn enwedig yng nghyd-destun Deddf Diogelu Data 1998 a allai gyfyngu'r 'wybodaeth bersonol' y gall cyflogwr ei darparu i drydydd parti fel ei gleient[15].
- mewn contract untro bach mae'n gymharol hawdd monitro'r canlyniad, ond ar gyfer rhaglen helaeth o waith mae mater monitro yn rhywbeth eithaf gwahanol a gallai fynnu buddsoddiad mewn system cronfa ddata bwrpasol sy'n cynhyrchu adroddiadau rheoli am y perfformiad cyffredinol a pherfformiad pob contractwr. Byddai hyn yn cynhyrchu gwybodaeth gadarn am ganlyniadau.
- mae'n bwysig bod y cleient neu ei asiant yn ymateb i'r wybodaeth fonitro – neu'r diffyg gwybodaeth. Bydd contractwyr a chyflenwyr yn ymateb i'r flaenoriaeth y mae eu cleient yn ei rhoi i wahanol elfennau o'r contract. Bydd tîm y cleient yn rhoi rhywfaint o sylw i ofynion RHT drwy gyfarfodydd safle ac ati, ond bydd hyn yn cael ei gyfyngu gan bryderon eraill sydd ganddynt, er enghraifft ynghylch ansawdd neu gyflymder cynnydd ac ati. Mae'n bwysig bod cynnydd RHT yn cael ei olrhain gan rywun y mae hwn yn brif flaenoriaeth iddo.

Ymateb Systemau

Ymhlith manteision mabwysiadu ymagwedd systematig at ymgorffori RHT y mae:

- mae'n helpu i sicrhau cydymffurfiad â fframweithiau caffael ac arfer da;
- bydd y tîm caffael yn datblygu sgiliau mewn gosod targedau priodol a sgorio ymatebion yn y broses ddyfarnu;
- gellir sefydlu ac adnoddu trefniant priodol i fonitro ac adrodd am ganlyniadau; a
- gellir trefnu cyllid a gwasanaethau allanol fel bod contractwyr yn gallu cyflawni'r gofynion yn well heb lawer o gost i'r cleient.

Y Cyfunwr Cyflogaeth Adeiladu (CCA)
Mae deng awdurdod lleol yng ngogledd ddwyrain Lloegr wedi datblygu'r CCA fel ymagwedd systematig at gael cyfleoedd swyddi a hyfforddiant adeiladu gan ddatblygiadau mawr yn eu hardaloedd. Datblygwyd hyn fel peilot gan y Panel Cyflogaeth Cenedlaethol (NEP) – a noddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau – ac mae bellach yn cael ei chyflwyno ledled y DU gan Working Ventures UK, y corff cyhoeddus anadrannol sy'n olynu'r NEP.

Mae gan y CCA fwrdd amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gwmnïau adeiladu, Sgiliau Adeiladu, awdurdodau lleol, y Ganolfan Byd Gwaith, y Cyngor Dysgu a Sgiliau a phartneriaid eraill. Nod hyn yw rhoi cyfarwyddyd strategol a sicrhau bod darpariaethau hyfforddiant a pharu swyddi yn cael eu teilwra i anghenion gwaith adeiladu sydd ar ddod.

Mae nifer o arfau ar gael i'r CCA sy'n cael eu defnyddio gan ei dîm, staff datblygu economaidd a 'cheidwaid contract'. Mae'r rhain yn cynnwys:

- system rhagweld sgiliau adeiladu;
- pecyn cymorth sy'n darparu'r wybodaeth gyfreithiol a chymalau enghreifftiol i gynnwys gofynion RHT mewn caffaeliad contractau, cytundebau datblygu a chytundebau cynllunio; a
- chronfa ddata paru swyddi ac olrhain buddiolwyr.

Mae'r CCA rhanbarthol yn gweithredu gyda phedwar aelod o staff, sy'n gweithio mewn partneriaeth â swyddogion cyswllt cyflogwyr yr awdurdodau sy'n cyfranogi.

15 Mae angen i'r unigolyn roi caniatâd i'w gyflogwr rannu gwybodaeth bersonol â'r cleient.

Roedd y gwerthusiad cychwynnol o'r ymagwedd ar gyfer y Panel Cyflogaeth Cenedlaethol gan Amion Consulting yn arddangos gwerth da am arian, gyda phob swydd ychwanegol (i hawliwr Adran Gwaith a Phensiynau) yn costio £2,775 ar gyfartaledd, sy'n cymharu'n dda â mentrau eraill yr Adran Gwaith a Phensiynau. Fodd bynnag, mae gweithredu wedi mynnu newidiadau mewn polisi ac arfer, yn benodol mewn swyddogaethau cynllunio a chaffael awdurdod lleol, ac mae'r rhain wedi digwydd yn anochel ar wahanol gyflymderau mewn gwahanol awdurdodau.

Cyswllt: Rod Varley, Project Manager, North East Construction Employment Integrator, Hartlepool Enterprise Centre, Brougham Terrace, Hartlepool TS24 8EY. Ffôn 07776 235520 E-bost rodneyvarley@aol.com

4.5 Hyrwyddwr RHT: y gydran allweddol

Un o elfennau allweddol y system yw hyrwyddwr ar gyfer y buddion cymunedol neu'r gofynion RHT sy'n gwybod yr hyn y gellir ei ddisgwyl ac sy'n rheolaidd yn cefnogi gwaith y tîm caffael, y contractwyr a'r "gadwyn gyflenwi" buddion cymunedol i sicrhau y bodlonir gofynion.

Swyddogion y corff cleient sy'n penderfynu cynnwys gofynion RHT (a'r hyn i'w gynnwys ac i ba raddau). Y mater allweddol wrth sicrhau dylanwad dros gontractau gwaith felly yw cefnogaeth swyddogion y cleient. Bydd hyn yn cymryd amser i'w gyflawni ac mae angen ei ystyried yn systematig, gan flaenoriaethu'r:

- prynwyr â'r gwariant blynyddol mwyaf ar waith priodol,
- y contractau sy'n fwyaf addas i hyfforddeion a newydd-ddyfodiaid;
- 'contractau cyfnod' gan fod y rhain yn gallu rhoi hirhoedledd; a
- chontractau sydd â'r polisïau mwyaf addas e.e. adfywio cymdogaeth a thai.

Gall gymryd amser i gysylltu â'r person cywir ac ennill ei gefnogaeth. Bydd angen mynd i'r afael â phryderon dilys am yr effaith bosibl ar gost, ansawdd, amserlenni, a monitro a rheoli contractau. Bydd yn bwysig i'r hyrwyddwr ganolbwyntio ymdrechion ar y cyfranogwyr mwyaf parod, ac wedyn defnyddio llwyddiant gyda'r partneriaid hyn i ennyn diddordeb eraill. Mae budd i'r ddwy ochr yn ganlyniad pwysig i'r rhan fwyaf o brynwyr. Gallai hyn gynnwys mynd i'r afael â'u pryderon am argaeledd sgiliau i gyflawni ac wedyn cynnal a chadw eu gwaith, neu'r cyfle i gyflawni canlyniadau polisi ychwanegol heb unrhyw gost ychwanegol i'w cyllidebau.

Mae Cymdeithas Tai Unedig Cymru wedi cyflogi Cydlynydd Gweithle i wneud y gwaith hwn.

Case Study

Disgrifiad Swydd y Cydlynydd Lleoliad Gwaith yng Nghymdeithas Tai Unedig Cymru

Cydlynydd Lleoliad Gwaith

Yn atebol i'r: Cyfarwyddwr Datblygiad

Diben cyffredinol: Cydlynu lleoliadau gwaith medrus a chyfleoedd hyfforddiant yn y gwaith yn y maes adeiladu gyda chontractwyr a chadwyn gyflenwi Unedig Cymru.

Dyletswyddau

Canfod y Buddiolwyr

1. Nodi prosiectau/cyflenwyr hyfforddiant a datblygu yn y gwaith
2. Datblygu perthnasoedd a chynlluniau gwaith ar gyfer lleoliadau gyda phrosiectau hyfforddi a datblygu yn y gwaith
3. Nodi a chynghori prosiectau hyfforddi a datblygu ar lwybrau hyfforddi priodol a meini prawf asesu ar gyfer buddiolwyr
4. Cysylltu â phrosiectau hyfforddi a datblygu i ddatrys unrhyw faterion sy'n codi o'r buddiolwr, gan gynnwys presenoldeb a pherfformiad buddiolwr
5. Sicrhau bod pob buddiolwr yn bodloni'r meini prawf y cytunwyd arnynt gyda'r prosiect hyfforddi a datblygu
6. Sicrhau unrhyw wasanaethau cefnogi ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer dilyniant y buddiolwr

Darparu a datblygu'r profiad gweithle

7. Nodi a datblygu cynlluniau ar gyfer cyfleoedd lleoliad ar gyfer buddiolwyr gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi ym Mlaenau'r Cymoedd
8. Hyrwyddo'r gwasanaethau cefnogi, fel prosiect Learn2Live JobMatch i gadwyn gyflenwi Unedig Cymru (contractwyr a chyflenwyr deunydd) a chyflogwyr allanol lle bo'n briodol.
9. Cysylltu â chontractwyr Unedig Cymru i nodi bylchau sgiliau mewn sectorau adeiladu amrywiol
10. Mewn cydweithrediad â'r contractwr, cydlynu cydymffurfiad ac archwiliadau iechyd a diogelwch
11. Sicrhau bod rhaglen gynefino briodol yn cael ei datblygu gan ein cadwyn gyflenwi a'n contractwyr i'w defnyddio ar y lleoliadau
12. Cysylltu â'r contractwr i ddatrys unrhyw faterion sy'n codi o'r lleoliad, gan gynnwys presenoldeb buddiolwyr, cymorth hyfforddi a pherfformiad.

Cydlynu a Marchnata Gwasanaeth

13. Sicrhau bod cofnodion a data diweddar yn cael ei gadw o leoliadau a sicrhawyd a pherfformiad a chymorth buddiolwyr
14. Paratoi a darparu adroddiadau misol rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Datblygu ar gynnydd buddiolwyr
15. Nodi a datblygu cyfleoedd i farchnata Unedig Cymru fel cyfle hyfforddi i fuddiolwyr posibl, gan gynnwys ffeiriau swyddi
16. Gweithio gyda rheolwr Marchnata a Chyfathrebu i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael
17. Rheoli'r gyllideb sy'n cael ei dyrannu i'r swyddogaeth hon
18. Cydymffurfio â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Unedig Cymru a phob polisi a gweithdrefn arall.
19. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n ofynnol gan y Cyfarwyddwr Datblygu

Cyswllt: **Michelle Smith,** Cymdeithas Tai Unedig Cymru, Tŷ Cennydd, Stryd y Castell, Caerffili, CF83 1NZ. Ffôn 02920 858100 e-bost msmith@UWHA.co.uk

4.6 Crynodeb

- Dylai'r cleient benderfynu a yw'r gofynion RHT a chadwyn gyflenwi yn elfennau craidd o'r contract, yn seiliedig ar ei bwerau a'i bolisïau;
- ble bynnag y bo'n bosibl, dylai'r gofynion hyn fod yn rhaid 'craidd' a dylid cyfeirio atynt yn yr hysbysiadau contract (er enghraifft, byddai contract yn cael ei ddisgrifio fel contract ar gyfer 'uwchraddio ceginau a hyfforddiant a chyflogaeth berthnasol'), a'u hadlewyrchu yn yr Holiadur Cyn-gymhwyso
- dylai'r gofynion RHT a chadwyn gyflenwi gael eu hystyried yn ddelfrydol yn y cyfnod achos busnes;
- dylai'r dewis o ofynion RHT a chadwyn gyflenwi ystyried:
  - gallu'r contract i dderbyn hyfforddeion a darparu'r buddion cymunedol;
  - yr adnoddau sydd ar gael am hyfforddiant a chymorth 'ochr gyflenwi' arall;
  - yr adnoddau sydd ar gael i fonitro ac olrhain cynnydd; ac
  - anghenion y buddiolwyr targed;
- cynnwys darpariaeth gwybodaeth fonitro yn y fanyleb a darparu adnoddau i ymdrin â hyn ac ymateb iddo;
- datblygu 'system' safonedig y gall contractwyr a chyflenwyr ddod i arfer â'i chyflwyno; a
- nodi neu gyflogi 'hyrwyddwr prosiect' i hybu'r ymagwedd.

Bydd yr adran hon yn amlinellu:

- Pwysigrwydd **cysylltu** â sefydliadau ochr gyflenwi
- Y **cymorth** y gallant ei roi i'ch sefydliad
- Pwysigrwydd y **rôl hwyluso** drwy gydol y broses gaffael
- **Canlyniadau monitro** defnyddio RHT

5.1 Pwysigrwydd

Mae 'trefniadau ochr gyflenwi' yn cynnwys rheoli a chefnogi hyfforddeion, gwasanaethau recriwtio a pharu swyddi, mynediad at gyllid ar gyfer hyfforddiant, a gwybodaeth cadwyn gyflenwi. Mae'r trefniadau hyn yn bwysig iawn ar gyfer cynnwys RHT mewn contractau a chytundebau eraill oherwydd:

- gallant ddileu cost gweithredu'r gofynion neu ei lleihau'n sylweddol iawn: costau sy'n cael eu talu fel arall gan y cleient am y gwaith neu werthwr yr eiddo o dan gytundeb datblygu;
- mae'r posibilrwydd y gellir cyflawni'r gofynion mewn ffordd gost niwtral yn ei gwneud yn llawer haws i gael cefnogaeth i'r cynigion gan y 'ceidwaid' i'r contractau a'r cytundebau;
- mae sicrhau bod gweithwyr, hyfforddeion neu gyflenwyr ychwanegol yn cael eu recriwtio drwy asiantaethau sy'n canolbwyntio ar recriwtio o gymunedau lleol yn darparu ffordd o dargedu'r buddion heb nodi recriwtio 'lleol'; a
- bydd cadwyni cyflenwi da i bobl o'r cymunedau targed yn ei gwneud yn haws i gontractwyr gyflawni eu rhwymedigaethau, a fydd yn gwella canlyniadau.

Prosiect Datblygu Cyflenwyr Lleol a'r Siop Gontractau

Nod y prosiect yw cynorthwyo busnesau bach a chanolig yng Nghymru i ennill contractau. Gall chwarae rôl 'ochr gyflenwi' allweddol wrth gynorthwyo LCCiaid ac ALlau yng Nghymru i dargedu'r cyfleoedd ochr gyflenwi sy'n codi o'u caffaeliad.

Gall hyn weithio drwy ddau fecanwaith. Yn gyntaf bydd 'hyrwyddwr cyflenwyr' y prosiect datblygu cyflenwyr lleol yn trefnu digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' ac yn darparu gweithdai 'sut i dendro' i gwmnïau lleol i'w helpu i gynnig am gontractau ac is-gontractau. Yn ail, maent yn annog busnesau bach a chanolig Cymru i gofrestru â'u gwefan www.contractshop.co.uk. Mae datblygwyr a phrif gontractwyr sy'n chwilio am gadwyn gyflenwi leol wedyn yn gallu cofrestru eu cyfleoedd contract/cyflenwi â'r Siop Gontractau a bydd y rhoir gwybod yn awtomatig am y rhain i gwmnïau addas sydd wedi cofrestru ar y safle.

Yn ei bedair blynedd gyntaf, mae'r prosiect wedi cynnal mwy na 250 o ddigwyddiadau, wedi cysylltu â mwy na 20,000 o fusnesau, a chwarae rhan mewn dros £70 miliwn mewn busnes a enillwyd gan gwmnïau Cymru. Cysylltwch â: info@contractshop.co.uk

5.2 Gwasanaethau ochr gyflenwi

Dylai argaeledd gwasanaethau ochr gyflenwi fod yn un ffactor sy'n dylanwadu'r gofynion RHT sy'n cael eu rhoi mewn contractau a chytundebau. Bydd nodi canlyniadau y mae trefniadau ochr gyflenwi gwael ar eu cyfer, ac felly mwy o oblygiadau cost posibl, yn ei gwneud yn anoddach cael cefnogaeth 'ceidwad' am y gofynion ac yn llai tebygol y bydd y contractwr yn llwyddo i gyflawni'r gofynion.

Ar gyfer pob llwybr i'r hyfforddiant neu'r gwaith mae'n bwysig sicrhau bod pob cam ar yr ysgol yn ei le ac wedi'i adnoddu.

Camau ar yr ysgol	**Camau Posibl**
Recriwtio ac asesu cychwynnol	Gwaith allgymorth. Sesiynau rhagflas. Gwaith gydag ysgolion. Asesiadau sgiliau. Proffilio cwmnïau cadwyn gyflenwi posibl, gan gynnwys eu harbenigedd, eu gallu a'u cryfder ariannol.
Hyfforddi cyn recriwtio	Hyfforddiant cwrs byr, gan gynnwys hyfforddiant pwrpasol i anghenion cyflogwyr. Cyrsiau NVQ 1 coleg. Cyflogaeth a hyfforddiant marchnad lafur ganolradd. Cyngor tendro i gwmnïau bach.
Paru swyddi a chysylltiadau cadwyn gyflenwi	Dewis ymgeiswyr ymlaen llaw i gyflogwyr ddewis ohonynt. Treialon gwaith. Cymorth i ymgeiswyr sy'n dod oddi ar fudd-daliadau. Cefnogaeth i'r cyflogwr a'r cyflogai gynnal y swydd. Darparu cysylltiadau cadwyn gyflenwi i gontractwyr.
Cyflogaeth	Hyfforddiant mewn swydd parhaus. Gwasanaethau rheoli hyfforddiant. Darparu hyfforddiant ac achrediad. Asesu a chofnodi ar y safle ar gyfer NVQ. Grantiau i dalu am amser i ffwrdd ar gyfer hyfforddiant parhaus (e.e. gan Sgiliau Adeiladu Cymru). Cymorth i'r cyflogwr a'r cyflogai gynnal y swydd.
Dilyniannau	Hwyluso lleoliad hyfforddeion gyda chyflogwyr newydd os nad yw'r cyflogwr cyntaf yn darparu'r hyfforddiant neu'r profiad sydd ei angen, neu os yw'n dod i ben. Cyngor ar hunangyflogaeth.

Bydd rhai o'r contractau a'r cytundebau'n para sawl blwyddyn ac mae sefydlogrwydd y trefniadau ochr gyflenwi yn bwysig iawn.[16]

Yn y cyd-destun hwn mae angen i LCC neu awdurdod lleol sy'n ceisio gweithredu'r ymagwedd gytundebol at sicrhau RHT arwain y gwaith i ddarparu gwasanaethau ochr gyflenwi. Gall weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyhoeddus eraill, ond mae'n rhaid iddo sicrhau bod y llwybr i gyflogaeth yn cael ei gynnal ar gyfer ei 'gymunedau blaenoriaeth' a bod y gwasanaethau'n canolbwyntio ar y cyflogwr. Rhan o'r rôl hon fydd dod o hyd i gyllid ychwanegol i danysgrifennu ac ychwanegu at y gwasanaethau a ddarperir o bryd i'w gilydd gan asiantaethau cyhoeddus eraill. Gallai hyn fynnu ymrwymiad cyllid awdurdod lleol neu LCC prif ffrwd a cheisio cyfraniadau gan eraill at gost darpariaethau gwasanaeth; ac wrth reswm efallai bydd y contractwr/cyflenwr hefyd yn gallu cael gafael at gyllid hyfforddiant diwydiant nad yw ar gael i gyrff cyhoeddus.

16 Er enghraifft, mae awdurdod lleol yn Essex yn mynd i gytundeb datblygu sy'n cynnwys RHT gyda rhaglen gyflawni 20 mlynedd.

Model JobMatch

Mae JobMatch yn fenter gyflogadwyedd, a oedd yn fenter beilot ar gyfer Blaenau Gwent yn 2004 ac a estynnwyd i i Ferthyr, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Thorfaen yn 2007. Trefniant partneriaeth ydyw rhwng yr awdurdodau lleol a phartneriaid fel y Ganolfan Byd Gwaith lle bo unigolion (ni waeth pa fudd-daliadau a gânt) yn gallu cofrestru â JobMatch a chael cymorth ychwanegol i'w helpu i ganfod cyflogaeth.

Nod JobMatch yw cysylltu â 14,000 o bobl drwy drefniadau partneriaeth a gwasanaethau allgymorth mewn cymunedau a gweithio gyda chyflogwyr i gynnig cyflogaeth i 10,000 o bobl erbyn 2012.

Mae'r model yn ymdrin â phobl nad ydynt yn barod ar gyfer gwaith drwy sicrhau cyswllt cyson a rheolaidd â gweithwyr allgymorth. Ar ôl cysylltu â hwy, anogir pobl i ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant cyn cyflogaeth a anelir at wella sgiliau cyflogadwyedd a hyder/cymhelliant.

Y cam nesaf yw symud pobl sy'n barod ar gyfer gwaith drwy gyfnod cynllunio gweithredu i nodi eu sgiliau, cryfderau a ffiniau gwaith a sicrhau bod ganddynt sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau perthnasol a diweddar. Mae'r model yn cynnig gwasanaeth recriwtio rhad ac am ddim i fusnesau ac yn eu cefnogi yn ystod y broses gyfweld a dewis.

Ar ôl i unigolyn ddechrau gwaith mae JobMatch yn cefnogi'r busnes a'r cyflogai am 12 mis. Yn ogystal â datblygu gyrfa, mae JobMatch hefyd yn cefnogi'r cyflogai'n ariannol hyd at werth o £900 os yw'n cael isafswm cyflog sylfaenol.

Llwybrau Cyflogaeth

Ar gyfer lleiafrif bach o'r bobl hynny nad ydynt yn barod ar unwaith ar gyfer gwaith, dim ond cyfnod helaeth o amser a chymorth dwys a fydd yn eu helpu i ddechrau gwaith. I'r bobl hyn, sy'n debygol o fod â rhwystrau sylweddol a lluosog rhag gwaith, mae 'Llwybr Cyflogaeth' ar gael. Am hyd at 12 mis mae unigolyn yn cael isafswm cyflog sylfaenol wrth ennill profiad cyflogaeth, yn ogystal â'r cyfle i oresgyn a rheoli ei rwystrau (beth bynnag ydynt) a chael hyfforddiant, gwybodaeth sylfaenol a darparu cymhwyster NVQ2. Defnyddir y cyfnod hwn i sicrhau bod y person yn barod ar gyfer gwaith, ac fe'i dilynir gan gymorth dwys i gael gwaith. Dilynir hyn yn ei dro gan 12 mis mewn cymorth gwaith fel y disgrifir uchod.

Er mwyn sefydlu Llwybr Cyflogaeth, mae angen i fusnes ei brynu. Mae cynlluniwr y Llwybr Cyflogaeth yn cyd-drafod â'r busnes i fod yn gynhaliwr a darparu amgylchedd i gynnal oes y Llwybr. Mae'r broses hon yn helpu i nodi anghenion sgiliau a hyfforddiant allweddol i'w sector ac yn gosod y nodau, prosesau cyfathrebu a monitro a'r canlyniadau a ddisgwylir erbyn diwedd y Llwybr.

Construction JobMatch

Lansiwyd Construction JobMatch yn rhan o Fenter Blaenau'r Cymoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006. Ei nod oedd canolbwyntio ar y sector adeiladu a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddisgwylir o ganlyniad i'r gweithgareddau adfywio lawer gan gynnwys gweithgarwch SATC. Nodau'r fenter yw:

- darparu pecyn cymorth i ddatblygwyr/contractwyr i'w helpu i fodloni eu rhwymedigaethau;
- canfod a rheoli hyfforddeion;
- darparu hyfforddiant priodol, paru swyddi, monitro ac adrodd;
- ariannu hyfforddeion 'ble bynnag y bo'n bosibl'; a
- rhoi gwybodaeth a chymorth recriwtio cyffredinol i gyflogwyr.

Mae Construction JobMatch yn cysylltu â phobl sydd eisiau gweithio yn y sector adeiladu ac yn cysylltu â JobMatch i gael cymorth i uwchsgilio ac ailsgilio cyflogeion posibl. Mae JobMatch wedyn yn parhau i gynnig cymorth mewn swydd gan gynnwys datblygu gyrfa a mentora am hyd at 12 mis ar ôl dechrau cyflogaeth.

Gwybodaeth Gyswllt: Rheolwr Cyflogaeth a Hyfforddiant Adeiladu, Tîm Rhaglen Blaenau'r Cymoedd, Swyddfa Brosiect Gwaith Glyn Ebwy, Ffordd y Gwaith Dur, Glyn Ebwy, NP23 6AA.

5.3 Hwyluso

Mae llwyddo i gyflawni RHT yn dibynnu ar hwyluso da yn y cyfnod tendro/dyfarnu a'r cyfnod cyflawni contract. Mae'r hwyluswr yn debygol o fod o dîm datblygu economaidd, adfywio neu ddatblygu cymunedol. Dyma ymhle mae'r ymrwymiad yn debygol o fod cryfaf; mae gwybodaeth am y canlyniadau hyfforddiant a recriwtio sydd eu hangen, a gwybodaeth a chyswllt â'r ochr gyflenwi (er enghraifft, asiantaethau hyfforddiant a pharu swyddi). Mae hefyd yn bwysig bod gan yr hwyluswr brofiad o'r sector, ei brosesau contractio a threfniadau hyfforddiant.

Mae chwe elfen yn perthyn i'r rôl hwyluso:

- cyn y broses dendro, gweithio gyda'r cleient a'r tîm caffael i nodi'r ymagwedd at ymgorffori RHT yr hoffent ei mabwysiadu, eu helpu i nodi targedau priodol, a'u helpu i fabwysiadu/datblygu geiriad priodol i'r dogfennau;
- gwerthuso gwybodaeth am hyfforddiant a recriwtio a ddarperir gan gynigyddion posibl e.e. mewn ymateb i holiadur cyn-gymhwyso a chyfrannu at ddewis y cwmnïau a wahoddir i dendro;
- yn ystod y cyfnod tendro, rhoi gwybodaeth i gynigyddion am y gofynion RHT ac adnoddau ochr gyflenwi mewn modd diduedd;
- sefydlu fframwaith sgorio ar gyfer ymatebion y cynigyddion i'r gofynion RHT (y datganiadau dull), sgorio'r rhain a chymryd rhan yn y broses ddyfarnu;
- olrhain cynnydd pan fo'r contractwr ar y safle i sicrhau bod perthynas dda ag asiantaethau ochr gyflenwi ac y dechreuir gweithredu ynghylch RHT yn gynnar;
- sefydlu a rheoli gwasanaeth monitro ac adrodd i'r prynwr; a
- chael ac ymateb yn rheolaidd i wybodaeth fonitro ar ran y cleient, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd safle i drafod unrhyw broblemau gyda chyflawni RHT.

O'r rhestr uchod gellir gweld y gallai'r diffyg adnoddau hwyluso gyfyngu'r cyfleoedd i gyflawni RHT yn briodol. Efallai bydd angen ehangu'r adnodd hwyluso yn unol â nifer y contractau gweithgar. Mae'n debygol y gallai un hwyluswr reoli 10-15 o gontractau yn y pen draw gyda rhywfaint o gymorth gweinyddol. I sicrhau'r buddion mwyaf posibl mae'n bwysig targedu'r adnoddau hwyluso at gontractau mwy sy'n para'n hwy. Fodd bynnag, bydd y gallu i wasanaethu llawer o gontractau yn lleihau'n sylweddol os oes rhaid i'r hwyluswr hefyd wneud gwaith helaeth gydag asiantaethau hyfforddiant a pharu swyddi i sicrhau bod gwasanaethau addas ar gael i'r contractwr/wyr.

5.4 Monitro, Gwirio ac Adrodd

Mae monitro a gwirio yn faterion allweddol pan gaiff gofynion RHT eu cynnwys fel amodau contract. Mae'n bwysig i'r cleient wybod beth sy'n cael ei gyflawni, yn benodol os yw'n talu am y canlyniadau. Mae monitro'n cyfeirio at gyflenwi gwybodaeth am berfformiad. Mae gwaith gwirio'n anelu at roi ffordd i'r cleient archwilio'r wybodaeth fonitro.

Mewn cyd-destun contractio, nid oes diben nodi canlyniadau na allant ac na fyddant yn cael eu monitro a'u gwirio. Mae hyn yn peryglu dargyfeirio ymdrech y tîm cleient a'r contractwr am ychydig iawn o elw mesuradwy, ac ychydig o elw gwirioneddol yn ôl pob tebyg. **Felly mae'n rhaid i'r systemau a'r adnoddau sydd ar gael i fonitro a gwirio canlyniadau ddylanwadu'r penderfyniad am y gofynion i'w cynnwys yn y fanyleb.** Mae hyn yn gofyn gwneud dewisiadau, ac mae'r dewisiadau'n dibynnu ar flaenoriaethau. Mae'n well cynnwys ychydig o ofynion a gwybod bod y rhain yn cael eu cyflawni na bod yn rhy soffistigedig wrth osod targedau ac wedyn methu monitro a gwirio'r canlyniadau.

I leihau costau, gellid datblygu system cronfa ddata lle caiff gwybodaeth fonitro contractwyr ei rhoi i mewn yn electronig, ei chydgrynhoi, ac wedyn ei defnyddio i ddarparu adroddiadau cynnyrch safle i'r cyfarfod safle client ac i'r swyddogion hwyluso. Os gall LCCiaid ac awdurdodau lleol sy'n cyfranogi gytuno ar amrywiaeth gymharol gul o ofynion RHT byddai'n bosibl datblygu gwasanaeth canolog sy'n cael data monitro o bob safle sy'n cyfranogi ac sy'n darparu adroddiadau canlyniad i gleientiaid, contractwyr a chyrff cenedlaethol. Byddai hyn hefyd yn gymorth i ddatblygu meincnodau a fydd yn cynyddu hyder prynwyr yn y targedau maent yn eu gosod. Byddai hyn yn cael budd ychwanegol gan fyddai contractwyr yn dod i arfer yn fuan â gweithredu'r system.

Dylai'r system fonitro gynnwys dull gwirio. Mae hyn yn llawer haws ei gyflawni i hyfforddeion newydd o ffynonellau a enwir na hysbysu pob swydd wag i asiantaethau a enwir. Gyda hyfforddeion newydd, gellir cael gwiriad o'r ffynhonnell a enwir a chan fod y niferoedd yn debygol o fod yn gymharol fach mae'n bosibl mynnu bod pob hyfforddai newydd yn cofrestru â'r asiantaeth fonitro. Efallai bydd yn bosibl gwirio'r swyddi a hysbysir o'r asiantaeth a enwir, ond mae'n anodd iawn gwybod sawl swydd wag sy'n cael ei llenwi o ffynonellau eraill a honni mai gweithwyr presennol sy'n cael eu trosglwyddo i'r gwaith.

Gallai'r polisïau Deddf Diogelu Data 1998 a chyfrinachedd mewn cyrff mawr atal rhai asiantaethau cyflenwi a enwir rhag darparu unrhyw wybodaeth wirio. Yn y cyd-destun hwn dylai'r prynwr neu ei asiant sicrhau ei fod yn casglu'r data ei hun – gweler templed 1 yn Adnodd 3.

5.5 Crynodeb

- bydd gwasanaethau ochr gyflenwi da yn lleihau'r gost i'r cleient a'r contractwr ac yn hwyluso cyflawni'r gofynion RHT ac ochr gyflenwi;
- mae angen i wasanaethau ochr gyflenwi ddarparu llwybrau cynhwysfawr i hyfforddiant, swyddi a chontractau i'r buddiolwyr targed;
- mae angen i gleientiaid gymryd rôl arwain weithgar wrth sefydlu a chynnal y gwasanaethau ochr gyflenwi sydd eu hangen arnynt;
- mae'n allweddol hwyluso'r broses er mwyn cael cyfleoedd a sicrhau'r buddion mwyaf posibl; ac
- mae'n rhaid i'r cleient (neu ei asiant) gael gafael ar wybodaeth fonitro a gwirio ac ymateb iddi; gall system cronfa ddata wella effeithlonrwydd y broses hon.

Bydd yr adran hon yn amlinellu:

- Y broblem gyda chyfamodau cadarnhaol
- Ymagwedd a argymhellir at ymdrin â chyfamodau cadarnhaol

6.1 Cyflwyniad

Mae cytundebau datblygu'n digwydd pan fo cyrff cyhoeddus (ac LCCiaid o bosib) yn mynd i gytundebau â thrydydd parti (er enghraifft, cwmnïau datblygu sector preifat) i ddatblygu safle neu gymdogaeth. Byddai enghreifftiau nodweddiadol yn cynnwys datblygu safleoedd masnachol neu ddefnydd cymysg ar ôl gwaith clirio, dadlygru, adfer a 'chydosod tir' sector cyhoeddus, neu werthu safleoedd tai cymdeithasol i'w hailddatblygu gyda chymysgedd o dai cymdeithasol a fforddiadwy. Yn y sefyllfaoedd hyn bydd y contractau adeiladu a phrydlesi defnyddiwr diwedd (mewn perthynas ag eiddo masnachol) yn cael eu cyhoeddi gan y datblygwr newydd, nid y corff cyhoeddus. Mewn rhai achosion bydd y parti i'r contract cychwynnol gyda'r corff cyhoeddus yn gwerthu ei fudd yn y safle i ddatblygwyr eraill, neu gall gael ei ailstrwythuro neu brynu.

Bydd rhai adegau lle bydd y corff cyhoeddus sy'n berchen ar y tir neu'n gwneud y buddsoddiad cychwynnol sydd ei angen i'w wneud yn addas i ddatblygiad eisiau sicrhau bod ei flaenoriaethau cymdeithasol (er enghraifft, RHT) yn cael eu cyflawni gan y datblygwyr a defnyddwyr diwedd y safleoedd. Gall y corff gwaredu ddefnyddio cytundeb datblygu i glymu'r datblygwyr a/neu ddeiliaid dilynol y safle wrth gyflawni'r buddion cymunedol sydd eu hangen ym marn y corff hwnnw.

Yn y cyd-destun hwn un pryder allweddol wrth ddrafftio'r cytundeb datblygu yw darparu gwydnwch mewn cyd-destun lle na ellir tybio o gwbl yn aml ynghylch pwy a fydd yn datblygu a phwy a fydd yn dal safle'r datblygiad, na phryd yr aiff y datblygiad yn ei flaen.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau o dan gytundeb datblygu yn gymharol dymor byr, a byddant yn cael eu bodloni gan y datblygwr a'r tirfeddiannwr gwreiddiol. Oni fydd y cytundeb yn amodi fel arall, ni fydd y rhwymedigaethau yn y cytundeb yn orfodadwy ond rhwng y ddau barti contractio gwreiddiol. Gall problemau gorfodi godi lle bo un parti'n gallu gwaredu ei rwymedigaethau cytundebol drwy drosglwyddiad, neu os yw un parti contractio'n cael parti arall i gyflawni ei rwymedigaethau, er enghraifft drwy is-gontractwr.

6.2 Problem "Cyfamodau Cadarnhaol"

Bydd y rhan fwyaf o gytundebau datblygu yn cynnwys rhwymedigaethau sy'n ymdrin â gwaredu tir boed hynny drwy werthiant llwyr neu brydles. Os yw corff cyhoeddus yn gwerthu tir ac eisiau cynnwys cyfamod 'budd cymunedol', mae'n wynebu problem lle bo'r cyfamodau hyn yn gadarnhaol (fel rheol mae cyfamod cadarnhaol yn gyfamod sy'n gofyn bod rhywun yn gwario ychydig o arian), a allai fod yn wir ar gyfer RHT. Y rheol gyffredinol yw na fydd baich cyfamod cadarnhaol yn clymu neb sy'n prynu'r tir hwnnw wedyn.

17 Mae'r hen reol gyffredinol mai dim ond parti i gontract sy'n gallu erlyn arno ('Contract Preifatrwydd') wedi'i wrthdroi bellach gan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999, ond yn ymarferol mae'r rhan fwyaf o gontractau'n adfer yr hen reol. Mae'n dilyn nad yw dieithriaid i gontract yn gallu cael rhwymedigaethau wedi'u gosod arnynt nad ydynt yn rhan ohonynt.

6.3 Ymagwedd a Argymhellir

Yn y cyd-destun hwn argymhellir tair ymagwedd at gyflawni buddion cymunedol neu RHT drwy gytundebau datblygu a gwerthiannau tir:

- mae deiliad y tir yn mynd i gontract amodol i werthu'r tir, ond yn cadw ei fudd rhydd-ddaliadol nes bod y gofynion RHT wedi'u cyflawni;
- mae'r contract i werthu'r tir/adeiladau yn cynnwys gofyniad bod y prynwr cyntaf yn gwneud cais ar y cyd (gyda'r gwerthwr) i'r Gofrestrfa Tir i nodi cyfyngiad na chaiff unrhyw werthiant gael ei gofrestru heb fod y gwerthwr wedi tystio ei fod wedi cael Gweithred Cyfamod wedi'i gweithredu (sy'n gysylltiedig â'r buddion cymunedol) o'i blaid;
- mae'r contract i werthu'r tir/adeiladau'n cynnwys gofyniad bod y datblygwr cyntaf yn darparu 'swm blaendal' ariannol ar lofnodi'r cytundeb datblygu (neu fesul dipyn), y bydd yn ei gael yn ôl gyda llog pan gyflanwir y gofynion RHT.

Mae'r ail a'r trydydd wedi'u gweithredu mewn nifer o gyd-destunau yn yr Alban a Lloegr, ac mae'n ymddangos mai dyma'r mwyaf derbyniol i'r swyddogion sy'n gweithredu'r cynlluniau, yn rhannol gan fod gweithredu 'bondiau' felly yn gyffredin mewn datblygu. Dyma'r ymagwedd a argymhellir ac mae enghraifft i'w gweld yn nhempled 3 (yn ogystal â thempledi 1 a 2) yn Adnodd 3.

7. Cyflwyniad i'r Deunydd Enghreifftiol yn Adnodd 3

I ddangos sut y gellir cynnwys RHT mewn contractau a chytundebau datblygu drwy gaffaeliad, datblygwyd cymalau enghreifftiol gan Anthony Collins Solicitors LLP. Caiff y rhain eu cynnwys yn Adnodd 3 fel cyfres o dempledi. Mae'r rhain ar gael hefyd mewn fformat y gellir ei lwytho i lawr **o www.whq.org.uk/i2i** ac yn cael eu defnyddio gan LCCiaid mewn contractau penodol. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod y deunydd:

- **yn gydnaws â phwerau a pholisïau'r sefydliad caffael;**
- **yn addas i'r contract;**
- **yn fforddiadwy; ac**
- **yn gyraeddadwy o'r ffynonellau/cymunedau targed sydd ar gael.**

Mae'r tabl isod yn nodi'r templedi a gaiff eu cynnwys yn Adnodd 3:

Deunydd Enghreifftiol	Disgrifiad
1	**Gofynion RHT** sylfaenol sy'n addas i gaffael **contract annibynnol**
2	**Datganiad dull** RHT profforma sylfaenol i'r rhai sy'n tendro ei lenwi
3	Addasiadau i dempled 1 i ymgorffori ymagwedd **'swm blaendal'**
4	Addasiadau i dempledi 1 a 2 i'w defnyddio mewn **cytundeb fframwaith,** neu i'w haddasu i'w defnyddio ar gyfer **prynu grŵp**
5	**Protocol RHT** enghreifftiol i fod yn gyfochrog â chontractau presennol, neu'r rheini sydd mewn cyfnod diweddarach o'r broses gaffael
6	**Fframwaith sgorio** enghreifftiol
7	**Cymalau contract** enghreifftiol